Estyn

Medi 2023



# Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd:

## Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

## Cynnwys — Tudalen


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 1 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Cefndir | 4 |
| Prif ganfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 13 |
| Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) | 14 |
| Pontio o AAA i ADY | 28 |
| Cyllid ac adnoddau | 45 |
| Datblygiad proffesiynol | 49 |
| Arfer effeithiol | 52 |
| Atodiad 1:  Crynodeb o Brosiectau Arloesi ADY | 53 |
| Atodiad 2: Cynnig Gwasanaeth Gyrfa Cymru | 55 |
| Atodiad 3: Enghreifftiau o ddarpariaeth a chymorth cwricwlwm ysgol a'r ymateb graddedig | 56 |
| Atodiad 4: Newidiadau mewn cofrestrau AAA/ADY yn ôl awdurdod lleol ac wedi'u grwpio yn ôl rhanbarth, 2020 i 2023 | 58 |
| Dulliau a sail y dystiolaeth | 61 |
| Geirfa | 64 |
| Cyfeiriadau | 65 |

# Crynodeb gweithredol

Hwn yw'r cyntaf o ddau adolygiad thematig, o leiaf, ar weithredu diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghymru. Bwriad diwygio ADY yw "…trawsnewid disgwyliadau, profiadau a deilliannau plant a phobl ifanc ag ADY…" (Llywodraeth Cymru, 2020 tud.2).

Does dim amheuaeth fod gweithredu diwygio ADY a diwygio'r cwricwlwm yn ystod cyfnod o heriau digynsail a sylweddol wedi bod yn gamp anodd ac uchelgeisiol i bawb dan sylw. Her ychwanegol i awdurdodau lleol ac ysgolion fu gweithio yn unol â fframweithiau deddfwriaethol anghenion addysgol arbennig (AAA) ac ADY.

Mae ymrwymiad, gwydnwch, ymroddiad a gonestrwydd swyddogion awdurdodau lleol a staff ysgolion wedi gwneud argraff ar y tîm arolygu. Rydym yn cydnabod yn llawn fod symud o un system i un arall yn cymryd amser.

At ei gilydd, mae nifer y disgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY neu AAA wedi lleihau'n sylweddol. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y disgyblion y mae eu DDdY neu DAA wedi'i nodi mewn cynllun statudol, naill ai trwy CDU neu ddatganiad o AAA. Yn sgil y gwaith sensitif rhwng Cydlynwyr ADY ysgolion a rhieni, yn enwedig lle ystyrir nad oes gan ddisgyblion ADY pan fyddent wedi cael AAA yn y gorffennol, mae rhieni, yn gyffredinol, yn dawelach eu meddwl fod y ddarpariaeth sydd wedi'i threfnu yn diwallu anghenion y disgybl.

Yn gyffredinol, mae ysgolion a fu'n cymryd rhan yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r ddarpariaeth y maent yn ei threfnu ar gyfer disgyblion, ac wedi addasu hyn yn dda fel arfer i ddiwallu anghenion disgyblion. Fodd bynnag, roedd y graddau y caiff y ddarpariaeth ei dosbarthu'n gyfreithiol yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn aneglur. Felly, mae'n debygol nad yw ysgolion yn cymhwyso'r gyfraith yn gyson.

Roedd cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (Cydlynwyr ADY) sy'n aelodau o uwch dîm arweinyddiaeth yr ysgol yn defnyddio'u swyddi'n dda i hyrwyddo ADY ar draws pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae datblygu gweithio clwstwr wedi cefnogi gweithio rhwng ysgolion. Mae arweinwyr clystyrau wedi cynorthwyo â rhannu arferion ac adnoddau arbenigol.

Roedd awdurdodau lleol ac ysgolion, fel ei gilydd, yn unfryd yn eu brwdfrydedd dros arferion a chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. O ganlyniad, mae perthnasoedd rhwng ysgolion a theuluoedd wedi gwella. Mae arferion yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn cyd-fynd yn dda â'r cyfeiriad cyffredinol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, sy'n anelu at fod yn gynhwysol. Mae llwyddiant diwygio ADY a'r Cwricwlwm i Gymru yn ymwneud â gwella ansawdd yr addysgu fel y gall ystafelloedd prif ffrwd gefnogi cynnydd priodol disgyblion unigol yn well, ni waeth beth yw eu ADY. At ei gilydd, ni fu digon o feddwl cydgysylltiedig ar lefel polisi nac ar lefel arfer i bwysleisio'r cysylltiad rhwng y Cwricwlwm i Gymru a diwygio ADY.

Roedd diffyg eglurder a thryloywder ynghylch pa gynlluniau datblygu unigol (CDUau) (heblaw am y rhai a nodwyd gan Lywodraeth Cymru) fydd yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol.

Mae awdurdodau lleol yn gwella darpariaeth ADY yn raddol ar gyfer disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae diffyg adnoddau, asesiadau, staffio a darpariaeth ddigonol.

Bu cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn cyllid ADY am sawl blwyddyn, gyda £77m yn ychwanegol o gyllid gan Lywodraeth Cymru ar ôl y pandemig. At ei gilydd, roedd dulliau i werthuso effaith y cyllid ar ddisgyblion ag ADY yn wan. Dywedodd arweinwyr ysgolion nad oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon clir o sut caiff penderfyniadau am gyllid eu gwneud gan eu hawdurdodau lleol.

# Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad thematig hwn i ymateb i gais am gyngor gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr cylch gwaith at Estyn ar gyfer 2022-2023. Hwn yw'r cyntaf o ddau adroddiad, o leiaf. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o ba mor dda y mae'r ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd a gynhelir a gymerodd ran yn yr adolygiad yn gweithredu agweddau allweddol ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cod ADY cyfatebol. Mae hefyd yn ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan wedi cefnogi ysgolion.

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o drafodaethau â 29 o ddarparwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed ac ysgolion uwchradd. O'r rhain, cynhaliwyd 12 trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae chwech o'r ysgolion, gan gynnwys dwy ysgol cyfrwng Cymraeg, yn cynnal darpariaeth dosbarth arbenigol awdurdod lleol lletyol ar gyfer disgyblion ag ADY. Dewiswyd ysgolion ar sail eu maint, eu math, eu lleoliad daearyddol, a'u cyd-destun economaidd-gymdeithasol.

Yn ein gohebiaeth gychwynnol ag awdurdodau lleol ac ysgolion, gofynnom iddynt beidio â pharatoi adroddiadau na chyflwyniadau i ni. Roeddem eisiau gwrando arnynt a deall eu llwyddiannau a'u heriau yn gweithredu diwygio ADY hyd yma. Fe wnaethom neilltuo amser yn ystod ein hymweliadau i ystyried unrhyw dystiolaeth y trefnodd y darparwyr ei bod ar gael i ni.

Hefyd, defnyddiom dystiolaeth o drafodaethau rhwng ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol a swyddogion awdurdodau lleol. Gellir gweld rhestr o'r awdurdodau hyn yn yr adran dulliau a sail y dystiolaeth.

Cynhaliwyd yr holl drafodaethau yn ystod tymor y gwanwyn 2023. O'r trafodaethau hyn, roedd 20 trafodaeth wyneb yn wyneb, a chynhaliwyd naw trafodaeth trwy dri grŵp ffocws ar-lein. Cynhaliom gyfweliadau lled-strwythuredig gyda swyddogion awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb am ADY, ac mewn ysgolion, cyfarfuom â CydADY yr ysgol ac uwch arweinwyr eraill, gan gynnwys y pennaeth.

Yn ystod tymor yr hydref 2022 a thymor y gwanwyn 2023, cawsom drafodaethau ag ychydig llai na hanner yr awdurdodau lleol ar y rolau statudol, a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a roddwyd i rieni. Rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd am rôl y CydADY yn yr adroddiad thematig hwn ac yn bwriadu ystyried y rolau statudol eraill yn ein hail adolygiad thematig.

Yn ystod yr wythnos yn dechrau 20 Mawrth 2023, edrychom ar wefannau'r 29 darparwr, i werthuso defnyddioldeb a hygyrchedd y wybodaeth a ddarparwyd. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn. Mae'r darparwyr wedi'u rhestru yn yr adran dulliau a sail y dystiolaeth.

Yn ychwanegol, cyfarfuom â Chynghrair y Trydydd Sector ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (TSANA). Mae TSANA yn cynrychioli gwahanol grwpiau o bobl ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd.

Gellir cael mwy o fanylion am sail y dystiolaeth yn adran dulliau a sail y dystiolaeth yr adroddiad hwn. Mae canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r sampl o ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr adolygiad.

Bydd ail gam yr adolygiad yn adeiladu ar ein canfyddiadau o'r cam cychwynnol hwn a bydd yn ystyried y rolau statudol eraill, sef swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar, a'r Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO). Bydd adolygiad yr ail gam hefyd yn ystyried gweithredu'r Ddeddf mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig a gynhelir.

Y gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol, a gwasanaethau gwella ysgolion. Mae o ddiddordeb i rieni a phartneriaid perthnasol, hefyd. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad yn cyfrannu at drafodaethau proffesiynol ar y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu a nodwyd.

## Cefndir

Pasiwyd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ALNET) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (sef Senedd Cymru erbyn hyn) ym mis Rhagfyr 2017, a'i chyhoeddi ym mis Ionawr 2018.

I ddechrau, y bwriad oedd gweithredu'r Ddeddf dros gyfnod o dair blynedd (2020-2023), ar ôl cyhoeddi Cod ADY Cymru (Llywodraeth Cymru, 2019). Daeth pennu tair rôl statudol newydd i rym ym mis Ionawr 2021. Cyhoeddwyd y Cod ADY terfynol ym mis Mawrth 2021 a daeth i rym ar 1 Medi 2021. O ganlyniad i effaith y pandemig, symudwyd y broses i nodi a chadarnhau pa blant oedd ag ADY ymlaen flwyddyn i fis Medi 2021. Ym mis Mawrth 2023, ychwanegwyd blwyddyn arall. Roedd hyn yn golygu y bydd bellach yn cael ei gweithredu dros bedair blynedd, ac y bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn mis Awst 2025.

Yn ei dogfen Rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol (2020 tud.2), amlinellodd Llywodraeth Cymru y bwriad i 'drawsnewid disgwyliadau, profiadau a deilliannau plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).' Mae'n nodi y bydd y system wedi'i thrawsnewid:

- yn sicrhau bod pob un o'r dysgwyr ag ADY yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chyflawni eu llawn botensial
- yn gwella cynllunio a chyflwyno cymorth ar gyfer dysgwyr o 0-25 ag ADY, gan roi anghenion, safbwyntiau, dymuniadau a theimladau dysgwyr yn ganolog i'r broses
- yn canolbwyntio ar bwysigrwydd nodi anghenion yn gynnar a rhoi ymyriadau amserol ac effeithiol ar waith sy'n cael eu monitro a'u haddasu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r deilliannau dymunol. (Llywodraeth Cymru 2020, tud.2)

Mae'r ddogfen yn disgrifio sut bydd y rhaglen trawsnewid ADY yn cael ei chyflwyno trwy bum thema, sef:

| | |
|---|---|
| Deddfwriaeth a chanllawiau statudol | Roedd hyn yn cynnwys y Ddeddf a rheoliadau a chanllawiau statudol ar ffurf y Cod ADY (tud.3-4) |
| Datblygu'r gweithlu | Roedd hyn yn cynnwys<br>(a) datblygu medrau craidd ar gyfer yr holl ymarferwyr, gan gynnwys datblygu arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn<br>(b) Datblygu medrau uwch – datblygu rôl y CydADY<br>(c) Datblygu medrau arbenigol, cyllid i gefnogi hyfforddi staff arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysg ac athrawon y disgyblion sydd â nam ar y golwg neu nam ar y clyw (tud. 4) |
| Gweithredu a chymorth pontio | Roedd hyn yn cynnwys<br>(a) cyllid cychwynnol i gefnogi arloesi rhwng partneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, iechyd, gofal cymdeithasol, addysg bellach, y blynyddoedd cynnar a'r trydydd sector<br>(b) Creu'r grŵp gweithredu strategol ADY<br>(c) Parodrwydd, cydymffurfio a monitro effaith<br>(ch) Penodi pum arweinydd trawsnewid ADY i ddarparu cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol, ysgolion, addysg bellach, a phartneriaid cyflenwi eraill; ac eithrio i'r arweinydd trawsnewid ar gyfer addysg bellach, daeth y rolau hyn i ben wrth i ddiwygio symud i'r cam gweithredu<br>(d) grantiau trawsnewid ADY a ddefnyddiwyd i gefnogi'r cynlluniau rhanbarthol a lleol ar gyfer pontio<br>(dd) y canllaw gweithredu ADY a esboniodd y graddfeydd amser ar gyfer gweithredu'r Ddeddf (tud.5) |
| Codi ymwybyddiaeth | Cyflawnwyd hyn yn rhannol trwy ddatblygu deunyddiau e-ddysgu ar-lein a oedd wedi'u targedu at gynulleidfa eang. (tud.6) |
| Cefnogi polisi | Roedd yr agwedd hon yn ymwneud â sicrhau bod y system anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anawsterau ac/neu anableddau dysgu bresennol yn parhau i weithredu hyd nes bydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llawn. (tud.6) |

Ffynhonnell: Rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) Llywodraeth Cymru (2020)

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn cynnwys 11 nod (Llywodraeth Cymru 2018a) a byddwn yn ymdrin ag agweddau ar y rhain yn yr adroddiad hwn:

1. Mae'r term anghenion dysgu ychwanegol yn disodli'r term anghenion addysgol arbennig ac anawsterau ac/neu anableddau dysgu. Mae'r diffiniad o anghenion dysgu ychwanegol "yn ei hanfod" yr un fath â'r diffiniad ar gyfer anghenion addysgol arbennig (Senedd Cymru, 2021, tud.1), fel y mae'r diffiniad ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol, sy'n disodli darpariaeth addysgol arbennig. Gellir gweld y diffiniadau yn yr adran o'r adroddiad ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY).
2. Mae'r Ddeddf yn disodli'r ddwy system statudol a oedd yn cwmpasu plant a phobl ifanc o oedran ysgol gorfodol sydd ag AAA a'r bobl ifanc hynny mewn addysg bellach oedd ag anhawster ac/neu anabledd dysgu. O ganlyniad, mae un system ddeddfwriaethol yn ymwneud â'r cymorth a roddir i'r plant a'r bobl ifanc rhwng 0 a 25 oed. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhoi hawl i addysg hyd at 25 oed.
3. Mae'r Ddeddf yn creu un cynllun statudol, o'r enw cynllun datblygu unigol (CDU). Bydd y cynllun hwn, dros gyfnod, yn disodli'r amrywiaeth bresennol o gynlluniau statudol ac anstatudol ar gyfer AAA neu anawsterau ac/neu anableddau dysgu i ddysgwyr mewn ysgolion ac addysg bellach.
4. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol ystyried safbwyntiau dysgwyr fel rhan o'r broses gynllunio bob amser, yn ogystal â safbwyntiau eu rhieni a'u gofalwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
5. Bydd CDUau yn canolbwyntio ar drefnu darpariaeth sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Dylai CDUau fod yn ddyheadol a chynorthwyo plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial.
6. Dylai'r broses o ran llunio a diwygio CDUau fod yn symlach na'r system flaenorol o ran datganiadau o anghenion addysgol arbennig.
7. Mae'r system newydd yn annog cydweithio a rhannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau. Dylai creu'r rolau statudol newydd canlynol gynorthwyo â hyn: cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer lleoliadau a gynhelir (ac eithrio ysgolion arbennig) a sefydliadau addysg bellach, swyddog anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar a'r swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig.
8. Mae'r system newydd yn annog i unrhyw anghydfod neu anghytuno gael ei ystyried, a'i ddatrys yn lleol, yn ddelfrydol.
9. Pan na fydd modd datrys anghydfod ynglŷn â chynnwys y CDU yn lleol, mae gan blant a phobl ifanc hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.
10. Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021 yn cynnwys canllawiau statudol ar ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY.
11. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i wasanaethau ystyried p'un a oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar blentyn neu berson ifanc. Os oes angen y ddarpariaeth hon arnynt, rhaid cymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth honno.

Yn ei Adroddiad Blynyddol 2021-2022, nododd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru:

> Er gwaetha'r pandemig, parhaodd bron yr holl ddarparwyr i wneud cynnydd graddol wrth ddiwygio'u darpariaeth i fodloni gofynion y Cod ADY… Roedd gan Gydlynwyr

Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) ddealltwriaeth dda o'r gofynion ac roeddent yn gadarnhaol ynglŷn â'r newidiadau. Fodd bynnag, roedd gwreiddio dealltwriaeth o ddiwygio ADY ar draws yr holl staff mewn darparwyr yn fwy amrywiol. Mewn ysgolion cynradd, roedd CydADY yn llwyddiannus i raddau helaeth o ran lledaenu canllawiau a hyfforddiant i aelodau staff eraill. Roedd hyn yn fwy problemus mewn ysgolion uwchradd, gan ei bod yn heriol sicrhau bod yr holl staff addysgu yn sylweddoli bod darparu ar gyfer ADY yn gyfrifoldeb pawb, yn enwedig ble mae athrawon yn ystyried eu hunain yn arbenigwyr pwnc …. Parhaodd darparwyr cyfrwng Cymraeg i fynegi pryderon ynglŷn ag argaeledd adnoddau Cymraeg i gefnogi gwaith ADY… Roedd cymorth gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ddefnyddiol, ar y cyfan… Erbyn mis Gorffennaf, roedd bron yr holl ddarparwyr wedi llwyddo i ddechrau nodi'r dysgwyr hynny y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) arnynt, a mapio'r anghenion darpariaeth ar gyfer dysgwyr eraill heb ADY. (Estyn, 2023, tud.15)

# Prif ganfyddiadau

## Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)

1 Roedd llawer o ysgolion a gymerodd ran yn yr adolygiad yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn, ar y cyfan, o'r diffiniad o ADY. Fodd bynnag, dywedodd ychydig o awdurdodau lleol ac ysgolion eu bod yn aneglur am y diffiniadau cyfreithiol a beth roedd hyn yn ei olygu, yn ymarferol. Cyfaddefodd yr awdurdodau lleol a'r ysgolion hyn iddynt ddefnyddio'u diffiniadau eu hunain a'u bod yn aros am eglurhad o ganlyniadau tribiwnlys.

2 Dywedodd ychydig iawn o ysgolion nad oedd eu hawdurdod lleol wedi darparu cyngor digon clir ar y diffiniadau cyfreithiol, a bod arweiniad wedi bod yn gyfyngedig. Yn ychwanegol, dywedodd ychydig o awdurdodau lleol, ac ychydig o ysgolion, nad yw'r Cod ADY yn rhoi arweiniad ymarferol digon clir ar sut i gymhwyso'r diffiniadau.

3 Yn gyffredinol, roedd gan Gydlynwyr ADY ddealltwriaeth glir iawn o'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn eu hysgol. Dros gyfnod, mae'r ddarpariaeth hon fel arfer wedi cael ei haddasu'n dda i ddiwallu anghenion newidiol y disgyblion.

4 Mae termau fel 'cyffredinol', 'cyffredinol a mwy', 'targedig', 'arbenigol' a, 'chymorth arbenigol, yn cynnwys cymorth amlasiantaethol', yn cael eu defnyddio'n gynyddol i gategoreiddio'r cymorth a'r ddarpariaeth a drefnir gan ysgolion. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth gyffredin bob amser o'r termau neu beth sy'n gyfystyr â darpariaeth o dan bob un o'r categorïau hyn. Nid oedd yn glir i ba raddau y mae darpariaeth yn y categorïau hyn yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

5 Nid oedd ychydig o'r awdurdodau lleol yr ymgysylltom â nhw yn ddigon ymwybodol o'u dyletswydd statudol i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn gyson.

## Pontio o AAA i ADY

6 Mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithio gyda dau fframwaith deddfwriaethol gwahanol ar yr un pryd hyd nes bydd yr holl ddisgyblion yn pontio o'r system AAA i'r system ADY. Mae hyn wedi creu baich gwaith ychwanegol sylweddol i awdurdodau lleol ac ysgolion, fel ei gilydd. Roedd awdurdodau lleol ac ysgolion yn croesawu'r newid cychwynnol yn y cyfnod gweithredu, ac yn gweld hyn yn fuddiol. Defnyddion nhw'r amser yn ystyrlon a pharhau i gynllunio ar gyfer gweithredu. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ac ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn yn feirniadol o'r estyniad diweddar, a'i amseriad. Maent yn bwriadu cadw at eu cynlluniau gwreiddiol a chwblhau gweithredu diwygio ADY erbyn Awst 2024.

7 Dylanwadodd y Cydlynwyr ADY hynny a oedd yn aelodau o uwch dimau arweinyddiaeth ar benderfyniadau strategol a defnyddion nhw eu swyddi'n dda i hyrwyddo ADY ar draws pob agwedd ar waith yr ysgol, gan gynnwys addysgu, y cwricwlwm a sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid oedd Cydlynwyr ADY, nad ydynt efallai'n aelodau o'r uwch dîm rheoli, bob amser o'r farn eu bod yn cael cymorth da gan uwch arweinwyr, ac roedd eu dylanwad ar lefel ysgol gyfan yn gyfyngedig.

8 Roedd y Cydlynwyr ADY a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn yn frwdfrydig ac ymroddgar. Mae eu rôl wedi newid yn sylweddol, nid yn unig o ran baich gwaith cynyddol ond hefyd o ran cyfrifoldeb cynyddol. Nid yw'n anghyffredin i Gydlynwyr ADY gael rolau arwain ac addysgu eraill yn eu hysgol. Mae hyn yn lleihau'r amser y gallant ei neilltuo i oruchwylio ansawdd y ddarpariaeth, gan gynnwys cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY.

9 Nid oedd awdurdodau lleol bob amser yn glir ynghylch p'un a yw ADY yn rhan o gynlluniau gwella ysgolion neu p'un a yw swyddogion gwella ysgolion yn cael trafodaethau ag ysgolion yn ymwneud ag ADY yn gyffredinol, a chynlluniau ar gyfer gweithredu diwygiadau ADY yn fwy penodol.

10 Mae datblygu gweithio mewn clwstwr, dan arweiniad CydADY clwstwr, wedi helpu sicrhau bod ysgolion yn cael cymorth da i weithredu diwygio ADY trwy rannu arfer ac adnoddau arbenigol. Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd yr ymagwedd gydlynus at weithio mewn clwstwr yn aneglur. Yn ychwanegol, roedd llawer o ysgolion a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn o'r farn eu bod yn cael cymorth da gan eu hawdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ysgolion uwchradd wedi cael cymorth a chyngor gan eu hawdurdodau lleol mewn modd digon amserol.

11 At ei gilydd, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu strategaethau awdurdodau lleol ar gyfer y sector ôl-16. Dywed yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi penodi swyddogion ôl-16 dynodedig eu bod yn datblygu partneriaethau strategol cryfach gyda darparwyr addysg bellach. Mae'r wybodaeth sydd gan awdurdodau lleol am golegau arbenigol annibynnol yn llai cadarn, ac o ganlyniad, mae eu hymgysylltiad â nhw yn fwy cyfyngedig. O ganlyniad, ni all awdurdodau lleol wneud penderfyniadau gwybodus am ystod lawn y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar draws y sector ôl-16, pan maent yn gwybod cyn lleied am y sector a'r hyn y mae'n ei ddarparu.

12 Roedd yr awdurdodau lleol a'r ysgolion a gymerodd ran yn unfryd yn eu brwdfrydedd am arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chynllunio. At ei gilydd, mae'r ysgolion hyn wedi bod yn greadigol o ran cynorthwyo disgyblion a rhieni yn dda i ddatblygu eu hyder i ymgysylltu'n ystyrlon â thrafodaethau. Cryfhawyd perthnasoedd rhwng ysgolion a rhieni. Fodd bynnag, mae'r ymagwedd gyffredinol at sicrhau ansawdd arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnwys nodi arferion sydd fwyaf effeithiol, yn rhy anghyson o hyd. Yn ychwanegol, er gwaethaf manteision clir y dull arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, soniodd bron pob un o'r darparwyr a gymerodd ran am y baich gwaith ychwanegol mae hyn yn ei greu.

13 Mae llwyddiant diwygio ADY a'r Cwricwlwm i Gymru yn ymwneud â gwella ansawdd yr addysgu, fel bod ystafelloedd dosbarth prif ffrwd yn gallu cefnogi cynnydd priodol disgyblion unigol yn well, heb ystyried a oes ganddynt ADY. At ei gilydd, nid oes digon o feddwl cydgysylltiedig wedi bod naill ai ar lefel polisi nac arfer i bwysleisio'r cysylltiad rhwng y Cwricwlwm i Gymru a diwygio ADY.

14 Roedd llawer o ysgolion yn glir y bydd awdurdodau lleol yn cynnal CDUau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd â chofrestriad deuol, er enghraifft disgyblion sy'n mynychu unedau cyfeirio disgyblion. Y tu hwnt i'r grwpiau hyn, roedd diffyg eglurder a thryloywder ynghylch pa CDUau fydd yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol. Yn ychwanegol, roedd anghysondebau clir yn ymarferol. Er enghraifft, efallai bydd CDU disgyblion sy'n

mynychu dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol yn cael ei gynnal naill ai gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol y maent yn ei mynychu.

15 Mae hyrwyddwyr a swyddogion CDUau sy'n cefnogi datblygiad CDUau wedi cael eu defnyddio'n effeithiol, ar y cyfan, ac mae ysgolion sydd wedi bod yn rhan o weithio mewn clwstwr wedi gwerthfawrogi'r cyfle i weithio gyda chydweithwyr o ysgolion eraill. Yn gyffredinol, roedd yr ysgolion hyn yn fwy hyderus o ran gweithredu diwygio ADY, ond at ei gilydd, lleiafrif o ysgolion yn unig yr ymwelwyd â nhw oedd yn teimlo'n sicr i ddatblygu a chynnal CDUau.

16 Dywedodd awdurdodau lleol ac ysgolion fod pwysau sylweddol o ran bodloni'r graddfeydd amser statudol ar gyfer cyflwyno CDUau. Cydweithwyr mewn asiantaethau eraill, yn enwedig asiantaethau iechyd, sy'n cael yr anhawster mwyaf yn darparu cyngor a gwybodaeth o fewn y graddfeydd amser penodol. Yn ychwanegol, roedd yr ymrwymiad a wna awdurdodau iechyd i ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn rhy amrywiol. Fodd bynnag, cesglir gwybodaeth gyfyngedig yn genedlaethol am ba mor dda y mae awdurdodau lleol yn perfformio o ran bodloni graddfeydd amser statudol ar gyfer cyflwyno CDUau.

17 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn y sampl wedi dibynnu'n sylweddol ar eu hawdurdod lleol, ac arweiniodd eu trawsnewid rhanbarthol at ddarparu gwybodaeth sydd wedi'i chloriannu ac yn ystyrlon iddynt, lle bo'n briodol. Roedd awdurdodau ac ysgolion a gymerodd ran yn feirniadol, ar y cyfan, o amseroldeb a defnyddioldeb y wybodaeth a'r canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd lleiafrif o ysgolion nad ydynt wedi defnyddio'r Cod ADY a'u bod wedi dibynnu ar y canllawiau a ddarparwyd gan eu hawdurdod lleol. Yn ychwanegol, roedd ysgolion yn gyffredinol yn gobeithio y byddai'r Cod ADY yn darparu enghreifftiau o arfer.

18 Mae bron pob un o'r awdurdodau lleol a gymerodd ran wedi lanlwytho gwybodaeth am ddiwygio ADY i wefan eu Cyngor. Yn ychwanegol, crëwyd amrywiaeth o daflenni gwybodaeth hefyd, wedi'u hanelu at rieni a gofalwyr, a phlant a phobl ifanc. Mae'r rhai a grëwyd gan glystyrau o ysgolion, neu'n rhanbarthol, yn helpu sicrhau neges gyson ledled rhanbarth. Fodd bynnag, mae ansawdd a hygyrchedd y wybodaeth ar gyfer rhieni ar wefannau Cynghorau ac ysgolion yn rhy amrywiol. Adroddir, trwy sefydliadau'r trydydd sector, fod rhai teuluoedd yn cael eu cynghori'n anghywir nad yw'r system ADY yn berthnasol i'w plentyn.

19 At ei gilydd, dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ac ysgolion yn y sampl y bu her yn isel oherwydd y perthnasoedd gweithio cryfach â rhieni. Yn sgil y gwaith sensitif rhwng Cydlynwyr ADY ysgolion a rhieni, yn enwedig lle ystyrir nad oes gan ddisgyblion ADY pan fyddent wedi cael AAA yn y gorffennol, mae rhieni, yn gyffredinol, yn dawelach eu meddwl fod y ddarpariaeth sydd wedi'i threfnu yn diwallu anghenion y disgybl. Bu eithriad i hyn yn gysylltiedig â her gan rieni ynglŷn â'r diffyg eglurder am drefniadau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae mwyafrif yr apeliadau a gofnodir gyda'r Tribiwnlys Addysg naill ai'n cael eu caniatáu gan awdurdodau lleol neu'u tynnu'n ôl gan yr apelydd, sy'n awgrymu bod llawer o waith i'w wneud o hyd rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a rhieni i osgoi anghydfod ar adeg gynharach (Tribiwnlys Addysg Cymru, 2022).

20 At ei gilydd, mae cydweithio a rhannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau yn rhy amrywiol. Roedd llawer o ysgolion yn gadarnhaol am y cydweithio sy'n bodoli rhyngddyn nhw eu hunain a'u hawdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol wedi croesawu rôl y DECLO. Fodd bynnag, mae gallu gwasanaethau iechyd i ddarparu gwybodaeth a chyngor mewn modd digon amserol, ac o fewn cyfnodau statudol, yn destun pryder.

21 Parhaodd awdurdodau lleol ac ysgolion i nodi bod manteisio ar gymorth gan wasanaethau lleferydd ac iaith, timau niwroddatblygiadol a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, yn her ddybryd iawn. Mae'r anawsterau hyn yn barhaus ac nid ydynt yn gysylltiedig â chyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, o reidrwydd.

22 Mae awdurdodau lleol yn gwella darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn raddol. Cyflawnir hyn yn bennaf trwy sefydlu dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol mewn ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau o ran diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r heriau hyn yn cynnwys diffyg adnoddau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg, staffio a darpariaeth ddigonol.

### Cyllid a darparu adnoddau

23 Mae'r cyllid ar gyfer AAA/ADY wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn am yr wyth mlynedd ddiwethaf, o leiaf (Llywodraeth Cymru 2022b). Fodd bynnag, mae diffyg tryloywder, a dealltwriaeth uwch arweinwyr mewn ysgolion yn y sampl, ynglŷn â sut mae awdurdodau lleol yn pennu eu cyllidebau ar gyfer ADY, gan gynnwys y rhai a ddyrennir i ysgolion. Ers dechrau'r pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £67 miliwn i gefnogi diwygio ADY (Llywodraeth Cymru 2022d, 2022c, f, h). Yn gyffredinol, roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion a gymerodd ran yn aneglur ynglŷn â sut mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi cael ei ddefnyddio yn eu hawdurdod. Mae dulliau i werthuso'r effaith y mae cyllid wedi'i chael ar gefnogi gweithredu diwygio ADY yn amrywiol a gwan, ar y cyfan.

### Datblygiad proffesiynol

24 Mae Llywodraeth Cymru wedi creu deunyddiau e-ddysgu ar-lein addysgiadol iawn, ond roedd y graddau y cafodd y rhain eu defnyddio a'u rhannu gan awdurdodau lleol ac ysgolion yn rhy amrywiol. O ganlyniad, nid oedd gweithwyr proffesiynol a rhieni mor ymwybodol ag y gallent fod ynghylch rhesymeg a goblygiadau diwygio ADY.

25 Gall ysgolion prif ffrwd fanteisio ar raglenni hyfforddiant cynhwysfawr a chymorth gan eu hawdurdodau lleol, gan gynnwys cymorth ac arweiniad gan ysgolion arbennig, lle mae trefniadau o'r fath yn bodoli. Siaradodd llawer o ysgolion a gymerodd ran yn hyderus am yr effaith gadarnhaol y mae dysgu proffesiynol wedi'i chael ar staff a disgyblion, fel ei gilydd. Fodd bynnag, roedd y graddau y mae dysgu proffesiynol yn effeithio ar ansawdd yr addysgu ar gyfer yr holl ddisgyblion yn llai amlwg.

26 Bu llawer o'r ffocws diweddar ar ddatblygiad proffesiynol yn gysylltiedig â chefnogi dealltwriaeth o newidiadau i'r system ADY. Roedd cefnogi datblygiad proffesiynol holl staff ysgolion, gan gynnwys y rhai sy'n dechrau yn y proffesiwn, o ran addysgu a diwallu anghenion disgyblion ag ADY, yn llai datblygedig.

## Arfer effeithiol

Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys llawer o nodweddion arfer effeithiol, gan gynnwys:

- eglurder, cysondeb ac amseroldeb cyngor, cymorth ac arweiniad a ddarperir gan awdurdodau lleol ac arweinwyr trawsnewid rhanbarthol
- datblygu gweithio mewn clystyrau
- rôl arfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn a hyrwyddwyr CDU
- ymrwymiad ac ymroddiad swyddogion awdurdodau lleol a Chydlynwyr ADY ysgolion

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Wella ansawdd y wybodaeth a ddarperir i rieni, er enghraifft, a datgan yn glir beth mae'r ysgol yn ei hystyried yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol

A2 Sicrhau bod gan Gydlynwyr ADY ddigon o amser ac adnoddau i gyflawni eu dyletswyddau

A3 Sicrhau bod dysgu proffesiynol staff ysgol yn cynnwys ffocws digonol ar addysgu o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion ag ADY

**Dylai awdurdodau lleol:**

A4 Sicrhau bod yr holl ysgolion yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

A5 Darparu gwybodaeth glir, gywir a chyfoes i randdeiliaid, yn enwedig o ran:
- beth mae darpariaeth ddysgu ychwanegol yn ei olygu yn ei ysgolion
- y CDUau hynny a fydd yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol a'r rhai a fydd yn cael eu cynnal gan ysgolion

A6 Parhau i sicrhau ansawdd ac adolygu arfer a darpariaeth ddysgu ychwanegol i sicrhau bod cyllid a dysgu proffesiynol yn cefnogi cyflwyno'n effeithiol ar gyfer:
- arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- cynlluniau datblygu unigol
- gwasanaethau, adnoddau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg

A7 Datblygu a chyhoeddi eu strategaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 ag ADY

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Sicrhau bod gan bob lleoliad ddealltwriaeth glir o'r diffiniadau cyfreithiol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a'r Cod ADY, a darparu enghreifftiau ymarferol i gynorthwyo dealltwriaeth

A9 Gwerthuso effaith cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i awdurdodau lleol yn llawn

A10 Sicrhau bod arweiniad a chyllid yn y dyfodol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol i alluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i gynllunio'n ddigonol

# Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)

## Trosolwg o'r bennod

Mae'r bennod hon yn ystyried y graddau y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn deall diffiniadau cyfreithiol ADY a DDdY. Mae hefyd yn tynnu sylw at ddosbarthu darpariaeth yn yr ysgol heblaw DDdY a ph'un a yw arferion o'r fath yn DddY, mewn gwirionedd. Ers cyflwyno diwygio ADY, bu gostyngiad yn nifer y disgyblion â darpariaeth ADY, ac mae'r bennod hon yn ystyried rhai o'r rhesymau am hynny.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol: deall y diffiniadau

Fel y nodwyd gan Ymchwil y Senedd (2021), mae'r diffiniad ar gyfer ADY yr un fath ag ydyw ar gyfer AAA yn ei hanfod, sef:

- mae'r dysgwr yn cael cryn dipyn yn fwy o anhawster yn dysgu na mwyafrif y dysgwyr eraill o'r un oedran (na ellir mynd i'r afael â hyn trwy addysgu gwahaniaethol yn unig); neu
- mae gan y dysgwr anabledd (at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010) sy'n ei atal neu'n ei rwystro rhag cael mynediad at addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer dysgwyr eraill o'r un oedran; ac
- mae'r anhawster neu'r anabledd dysgu yn galw am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY).

Mae'r diffiniad o ADY ychydig yn ehangach na'r diffiniad o AAA o ran y ffaith ei fod yn cyfeirio'n benodol at anawsterau neu anabledd dysgu sy'n codi o ganlyniad i gyflwr meddygol. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys cyfeiriad cyffredinol at anabledd a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ôl adran 6 Deddf Cydraddoldeb 2010:

> "Mae gan unigolyn anabledd a) os oes ganddo nam corfforol neu nam meddyliol, a b) os yw'r nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i ymgymryd â gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae cyfeiriad at berson anabl yn cyfeirio at berson sydd ag anabledd".

Mae'r diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn ffurfio rhan o'r diffiniad o ADY, ond caiff ei ehangu gan gyfeiriad at sefydliadau addysg bellach prif ffrwd gan fod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn berthnasol i bobl ifanc sy'n fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach. Yn ychwanegol, bu newid i oedran gan nad oes unrhyw addysg ffurfiol islaw tair oed.

| Diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol | Diffiniad o Anghenion Addysgol Arbennig |
|---|---|
| (1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo neu ganddi anhawster neu anabledd dysgu (p'un a yw'n anhawster neu'n anabledd dysgu sy'n deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.<br><br>(2) Mae gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson dros yr oedran hwnnw anhawster neu anabledd dysgu:<br><br>(a) os yw'n cael mwy o anhawster yn dysgu na mwyafrif y plant eraill o'r un oedran, neu<br><br>(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei rwystro rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer plant eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.<br><br>(3) Mae gan blentyn o dan oedran ysgol gorfodol anhawster neu anabledd dysgu os yw ef neu hi yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o oedran ysgol gorfodol, neu y byddai felly pe na bai unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei threfnu.<br><br>(4) Nid oes gan berson anhawster neu anabledd dysgu dim ond oherwydd bod yr iaith (neu'r ffurf iaith) y bydd ef neu hi yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf iaith) sy'n cael ei defnyddio neu wedi cael ei defnyddio gartref. | Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n galw am drefnu darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.<br><br>Mae gan blant anhawster dysgu:<br><br>(a) os ydynt yn cael cryn dipyn yn fwy o anhawster yn dysgu na mwyafrif y plant o'r un oedran; neu<br><br>(b) os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer plant o'r un oedran mewn ysgolion o fewn ardal yr awdurdod addysg lleol<br><br>(c) os ydynt o dan oedran ysgol gorfodol ac yn disgyn o fewn y diffiniad yn (a) neu (b) uchod neu y byddent pe na byddai darpariaeth addysgol arbennig yn cael ei threfnu ar eu cyfer. |

| **Diffiniad o Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol** | **Diffiniad o Ddarpariaeth Addysgol Arbennig** |
|---|---|
| (1) Mae “Darpariaeth ddysgu ychwanegol” ar gyfer person sy’n dair oed neu’n hŷn yn golygu darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy’n ychwanegol, neu’n wahanol, i’r ddarpariaeth a drefnir yn gyffredinol ar gyfer plant eraill o’r un oedran mewn —<br><br>(a) ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,<br><br>(b) sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu<br><br>(c) leoedd yng Nghymru lle darperir addysg feithrin.<br><br>(2) Mae “Darpariaeth ddysgu ychwanegol” ar gyfer plentyn o dan dair oed yn golygu darpariaeth addysgol o unrhyw fath.<br><br>(3) Yn is-adran (1), mae “addysg feithrin” yn golygu addysg sy’n addas ar gyfer plentyn sydd wedi cyrraedd tair blwydd oed ond o dan oedran ysgol gorfodol | Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu:<br><br>(a) ar gyfer plant sy’n ddwy oed neu’n hŷn, darpariaeth addysgol sy’n ychwanegol, neu fel arall yn wahanol, i’r ddarpariaeth addysgol a drefnir yn gyffredinol ar gyfer plant o’u hoedran mewn ysgolion a gynhelir gan yr AALl, heblaw ysgolion arbennig, yn yr ardal<br><br>(b) ar gyfer plant o dan ddwy oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath<br><br>Gweler Adran 312, Deddf Addysg 1996 |

At ei gilydd, ac yn bennaf oherwydd y wybodaeth a’r arweiniad a ddarperir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys arweinwyr trawsnewid rhanbarthol, roedd llawer o’r ysgolion a gymerodd ran yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn, ar y cyfan, o’r diffiniad o ADY. Roeddent yn deall bod angen i blentyn ag ADY gael darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY), sef darpariaeth sy’n ‘ychwanegol i, neu’n wahanol i, ddarpariaeth a drefnir yn gyffredinol ar gyfer plant o’r un oedran mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.’

Yn sgil cyflwyno diwygio ADY, mae termau wedi ymddangos sy’n disgrifio darpariaeth ddysgu fel: ‘cyffredinol’, ‘targedig’, ‘arbenigol’ ac ‘ychwanegol’. Dim ond pan gaiff darpariaeth ei dosbarthu gan awdurdodau lleol ac/neu ysgolion yn ‘ychwanegol’, yr ystyrir bod gan ddisgyblion ADY. Archwilir hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Dywedodd ychydig o awdurdodau lleol ac ysgolion eu bod yn aneglur am y diffiniadau cyfreithiol a beth roedd hyn yn ei olygu yn ymarferol. Cyfaddefodd yr awdurdodau lleol a’r ysgolion hyn eu bod yn defnyddio’u diffiniadau eu hunain ac yn aros am eglurhad o ganlyniadau Tribiwnlys Addysg Cymru pan fydd teuluoedd yn apelio yn erbyn penderfyniadau’r awdurdod lleol. Mae’r graddau yr oedd ysgolion yn ymwybodol o’r ddarpariaeth ‘sy’n cael ei threfnu yn gyffredinol ar gyfer plant eraill o’r un oedran mewn ysgolion a gynhelir’ yn gwella’n raddol, yn enwedig yn yr ysgolion hynny sydd wedi datblygu gweithio cryfach mewn clystyrau. Fodd bynnag, roedd y graddau y mae

awdurdodau lleol ac ysgolion yn dehongli'r diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn gyson yn rhy amrywiol. Mae hyn yn cynnwys anghysondebau rhwng ysgolion sampl yn yr un awdurdod lleol a rhwng awdurdodau lleol yn yr un rhanbarth.

Soniodd ychydig iawn o ysgolion nad yw eu hawdurdod lleol wedi darparu cyngor digon clir, neu fod cyngor ac arweiniad wedi bod yn gyfyngedig. Yn ychwanegol, dywedodd ychydig o awdurdodau lleol ac ysgolion nad yw'r Cod ADY yn darparu arweiniad digon clir ar ddehongliad o'r diffiniadau.

Yn gyffredinol, roedd ysgolion a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad hwn a oedd wedi derbyn hyfforddiant ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ddiweddar, yn meddu ar ddealltwriaeth well o'u dyletswyddau statudol i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer plant sydd ag anabledd. Nid yw o reidrwydd yn golygu bod gan blentyn sy'n derbyn addasiadau rhesymol angen dysgu ychwanegol, o reidrwydd, ac nid yw'n golygu fel mater o drefn fod angen dysgu ychwanegol gan blentyn â diagnosis o gyflwr neu anabledd. Yn ychwanegol, mae ysgolion wedi cael eu hatgoffa na ellir defnyddio'r ffaith nad oes diagnosis meddygol yn rheswm dros oedi neu beidio â threfnu DDdY neu wneud addasiadau rhesymol. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o Gydlynwyr ADY yn credu'n anghywir fod angen diagnosis meddygol cyn gallu trefnu DDdY briodol.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y Cod ADY, 'mae rhai ffurfiau ar anabledd lle mae natur yr anabledd yn golygu ei bod yn debygol y bydd gan y dysgwr ADY' (Llywodraeth Cymru, 2021e, tud.33). Mae plant a phobl ifanc sydd â nam ar eu golwg neu nam ar eu clyw 'yn fwy tebygol o fod ag ADY yn rhinwedd y ffaith fod y nam yn debygol o'u hatal neu'u rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol neu hyfforddi ac mae'n debygol o fod angen DDdY'. Mae'r Cod hefyd yn nodi 'efallai fod plentyn neu berson ifanc yn perfformio'n dda ar draws pob maes o'r cwricwlwm ond bod ganddo ADY, serch hynny, oherwydd bod ganddo anabledd sy'n ei atal neu ei rwystro rhag gwneud defnydd llawn o gyfleusterau addysg neu hyfforddiant, oni bai y trefnir DDdY ar ei gyfer.' (2021e, tud.33)

## Cofrestrau AAA ac ADY

Mae'n ofynnol i bob ysgol gyflwyno ystod o ddata yn ymwneud â'u hysgolion i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn cofnodi gwybodaeth sy'n cynnwys y math o ysgol, staffio, nodweddion disgyblion, yn cynnwys nifer y disgyblion ar gofrestr ADY yr ysgol, ac anghenion dysgu ychwanegol ei disgyblion.

Ers cyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn raddol, bu gostyngiad yn nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt ADY. Mae gan ryw 13% ohonynt ADY yn 2023 o gymharu ag ychydig llai na 21% o ddisgyblion a gafodd eu cynnwys ar y gofrestr AAA yn 2020. Yn hanesyddol, roedd tua 22% o ddisgyblion wedi'u cynnwys ar gofrestrau AAA mewn ysgolion.

Mae data dros dro newydd ar gyfer 2023 yn dangos bod 34,450 yn llai o ddisgyblion yn derbyn DDdY mewn ysgolion a gynhelir ers cyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn 2020, sy'n golygu 35% o ostyngiad, fel cyfanswm.

Mae'r rhan fwyaf o'r gostyngiad wedi dod gan ddysgwyr ar ddarpariaethau AAA Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Mae gostyngiad o 28,170 o

ddysgwyr yn cynrychioli 56% o ostyngiad ymhlith y rhai a oedd ar gam Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn y gorffennol, a gostyngiad o 15,375 o ddysgwyr, sy'n golygu 46% o ostyngiad ymhlith dysgwyr a oedd ar gam Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy o 2020.


Dros y cyfnod 2020-2023, bu cynnydd o 67% yn nifer y cynlluniau statudol, yn cynnwys datganiadau o AAA, ac yn cynnwys y CDUau a gyflwynwyd. Roedd nifer gyfunol y CDUau a'r datganiadau a gyflwynwyd yn 2023, sef 22,610, yn fwy na nifer y datganiadau a gyflwynwyd am o leiaf bob un o'r pum mlynedd ddiwethaf.

Hefyd, mae'n bwysig amlygu bod y data hefyd yn dangos bod plant yn cael eu symud i'r system ADY newydd, gyda chyfanswm o 10,485 o ddysgwyr yn dilyn CDUau o fis Ionawr 2023 (StatsCymru, 2018-2023).

Nid oedd ychydig o awdurdodau lleol a lleiafrif o ysgolion (yn enwedig ysgolion uwchradd) yn y sampl yn ddigon ymwybodol o newidiadau i gofrestrau ADY ysgolion. Mae hyn yn codi cwestiynau am sicrhau ansawdd y data a gofnodir gan ysgolion. Nid oedd ganddynt wybodaeth ddigon manwl, er enghraifft, am ba grwpiau o ddysgwyr nad oeddent yn cael eu cynnwys ar y gofrestr, erbyn hyn. O ganlyniad, ni allant sicrhau eu hunain yn ddigon da fod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu ac na all awdurdodau lleol herio'r newidiadau.

Ceir mwy o fanylion am y newidiadau mewn cofrestrau AAA / ADY yn ôl awdurdod lleol, ac wedi'u grwpio yn ôl rhanbarth, 2020 i 2023, yn Atodiad 4.

**Nifer y disgyblion ag AAA / ADY mewn ysgolion a gynhelir yn ôl darpariaeth, 2018 i 2023 (p)**




*(p) Mae'r data hwn dros dro a gallai newid*

*Ffynhonnell: StatsCymru (2018-2023)*

Mae llawer o ffactorau sy'n debygol o fod wedi cyfrannu at ostyngiad cyffredinol yn nifer y plant ar gofrestrau ADY ysgolion.

*Yr Ymateb Graddedig.* O dan y system AAA, cofnodir disgyblion ar y gofrestr AAA yn ôl ‘gweithredu gan yr ysgol, ‘gweithredu gan yr ysgol a mwy’ a’r rhai sy’n derbyn datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae gweithredu gan yr ysgol yn cyfeirio at ddarpariaeth y gall yr ysgol ei threfnu i ddiwallu anghenion disgyblion heb gymorth arbenigwyr allanol. Mae gweithredu gan yr ysgol a mwy yn dangos bod yr ysgol yn derbyn cyngor allanol. Gallai hyn fod gan seicolegydd addysg, athro ymgynghorol arbenigol neu weithiwr iechyd proffesiynol. Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig fel arfer ar gyfer disgyblion sydd â’r anghenion mwyaf cymhleth. Mae’r datganiad o AAA yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar yr awdurdod lleol i drefnu’r ddarpariaeth, fel yr amlinellir yn y ddogfen. Caiff y dull tri cham hwn ei adnabod yn gyffredinol fel yr ymateb graddedig.


O dan y system ADY, disgwylir i ysgolion ddarparu ymateb graddedig o hyd. Fodd bynnag, naill ai mae gan ddisgyblion ADY neu nid oes ganddynt ADY. Heblaw ar gyfer disgyblion sy’n derbyn CDU, nid yw’n ofynnol i ysgolion gofnodi’r ddarpariaeth y maent yn ei threfnu ar gyfer disgyblion ar eu cofrestr ADY, mwyach.

Mae’n ofynnol i ysgolion gofnodi ar eu cofrestr ADY y math o AAA/ADY sydd gan ddisgybl o’r rhestr ganlynol:

| Cyfathrebu a rhyngweithio | Gwybyddiaeth a Dysgu | | Synhwyraidd a/neu gorfforol | Ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol |
|---|---|---|---|---|
| | Dysgu | Anawsterau Dysgu Penodol | | |
| #Awtistiaeth<br><br>Lleferydd, iaith a chyfathrebu | Anawsterau dysgu cymedrol<br><br>Anawsterau dysgu difrifol<br><br>Anawsterau dysgu dwys a lluosog | Dyslecsia<br><br>Dyscalcwlia<br><br>Dyspracsia<br><br>Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd | Nam ar y clyw<br><br>Nam ar y golwg<br><br>Nam amlsynnwyr<br><br>Anawsterau corfforol a meddygol | Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol |

*Anawsterau Dysgu Cyffredinol.* Tan 2022, cafodd y term anawsterau dysgu cyffredinol ei gynnwys o dan gategori gwybyddiaeth a dysgu, hefyd. Diffiniwyd hyn fel ‘ni fydd asesiad o ddisgyblion ag anawsterau dysgu, a allai fod o ddifrifoldeb cymedrol, wedi dangos bod ganddynt anawsterau dysgu cymedrol’ (Llywodraeth Cymru, 2013 tud.8). Nid oedd yn anghyffredin bod disgyblion a oedd yn derbyn ymyriadau dal i fyny yn y tymor byr ar gyfer llythrennedd a/neu rifedd wedi’u categoreiddio’n ddisgyblion sydd ag anhawster dysgu cyffredinol ac wedi’u cofnodi ar gofrestr AAA yr ysgol fel gweithredu gan yr ysgol.

**Nifer yr adroddiadau am ADY neu AAA mewn ysgolion a gynhelir, yn ôl math o angen, 2019 i 2022**




| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|
| Synhwyraidd a/neu gorfforol | 12005 | 11647 | 12005 | 9354 |
| Cyfathrebu a rhyngweithio | 11328 | 11972 | 11328 | 32392 |
| Gwybyddiaeth a Dysgu | 52100 | 48726 | 52100 | 25370 |
| Ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol | 25003 | 24920 | 25003 | 21682 |
| Anawsterau dysgu cyffredinol | 36390 | 33171 | 36390 | 13855 |

*Ffynhonnell: StatsCymru (2018-2023)*

Er mis Ionawr 2017, caniatawyd i ysgolion a gynhelir adrodd am gynifer o anghenion addysgol arbennig ar gyfer disgybl ag yr oedd ei angen. Mae’r siart uchod yn dangos nifer yr adegau yr adroddwyd am bob math o angen ym mhob blwyddyn. Mae’r siart yn dangos yn glir y bu cynnydd sylweddol mewn cofnodi disgyblion ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio. Mae’r siart hon yn cynnwys data o’r Cyfrifiad Ysgolion diweddaraf a gyhoeddwyd ar hyn o bryd.

Mae’r Cod ADY yn ceisio egluro’r sefyllfa ynglŷn â disgyblion sy’n derbyn ymyriadau dal i fyny:

> Mae un agwedd ar y diffiniad o ADY yn cynnwys bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael (neu yn achos plentyn o dan oedran ysgol gorfodol, yn debygol o gael pan fydd o oedran ysgol gorfodol) "anhawster sylweddol fwy i ddysgu na mwyafrif y rhai eraill sydd o'r un oedran" (adran 2(2)(a) a (3) o'r Ddeddf). Os yw plentyn neu berson ifanc yn cael (neu'n debygol o gael) mwy o anhawster yn dysgu na mwyafrif y lleill o'r un oedran, mae p'un a yw (neu'n debygol o fod) yn anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu o gymharu â'r rhai eraill yn dibynnu ar raddau'r ddarpariaeth addysgol neu hyfforddiant y bydd yr anhawster yn gofyn amdani (neu'n debygol o alw amdani). Os yw'r anhawster yn gofyn am (neu os yw’r anhawster tebygol yn gofyn am) ddarpariaeth addysgol neu hyfforddiant sydd ar gael yn gyffredinol mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau addysg bellach (er enghraifft, mesurau fel darpariaeth dal i fyny neu strategaethau addysgu gwahaniaethol yn fwy cyffredinol), ni fyddai'n cyfrif fel anhawster sylweddol fwy i ddysgu. Ond os yw'r ddarpariaeth addysgol neu hyfforddiant y mae'r anhawster yn gofyn amdano (neu y mae’r anhawster tebygol yn gofyn amdano) yn DDdY, mae'n (neu bydd yn) anhawster sylweddol fwy i ddysgu.” (Llywodraeth Cymru, 2021e, tud.32)

Yn ei hanfod, nid yw bylchau mewn dysgu y gellir mynd i'r afael â nhw trwy ymyriadau dal i fyny neu ddulliau addysgu gwahaniaethol yn gyfystyr ag 'anhawster sylweddol fwy i ddysgu' (Llywodraeth Cymru, 2021, tud.32). O ganlyniad, nid ystyrir bod dulliau o'r fath yn DDdY ac ni fyddai disgyblion sy'n derbyn ymyriadau dal i fyny yn cael eu hystyried yn ddisgyblion ag ADY.

*Goruchwylio'r gofrestr AAA a chyllid.* Nid yw goruchwylio cofrestrau AAA ar lefel ysgol ac awdurdod lleol wedi bod yn gryf. O ganlyniad, gallai disgyblion fod wedi aros ar gofrestrau AAA am flynyddoedd lawer. Gallai hyn yn rhannol fod o ganlyniad i gymhellion cyllid gwrthnysig lle roedd ysgolion yn derbyn cyllid ar sail nifer y disgyblion ar y gofrestr AAA. O ganlyniad i'r diwygiadau ADY, mae llawer o ysgolion wedi adolygu pa ddisgyblion sydd ar eu cofrestrau AAA/ ADY, gan arwain at rai newidiadau. Mae'r awdurdodau lleol a gymerodd ran yn yr adroddiad thematig hwn yn adolygu'r cyllid ar gyfer ADY yn eu hysgolion.

*Cyngor ALl.* Yn fwy diweddar, mae llawer o awdurdodau lleol wedi rhoi cyngor i ysgolion ar eu cofrestrau ADY, gan gynnwys p'un a yw darpariaeth wedi'i chofnodi'n DDdY. Dywedodd ychydig iawn o ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg hwn eu bod wedi herio'u hawdurdod lleol ar ei gyngor a'i ddehongliad o'r diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae'r ysgolion wedi cadw mwy o ddisgyblion ar eu cofrestr ADY na'r hyn a awgrymwyd gan yr awdurdod lleol.

*Cynnydd mewn angen.* Er gwaethaf gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n cael eu cynnwys ar gofrestrau ADY, dywedodd ysgolion yn y sampl fod anghenion disgyblion yn dod yn gynyddol gymhleth a mwy o ddisgyblion yn mynd yn orbryderus, yn cael anhawster rheoli eu hemosiynau a'u hymatebion emosiynol iddyn nhw eu hunain a phobl eraill, a chynnydd yn nifer y disgyblion y mae oedi yn eu medrau cyfathrebu. Yn ychwanegol, dywedodd ychydig o awdurdodau lleol y bu cynnydd yng nghyfran y plant sy'n derbyn gofal sydd efallai ag angen dysgu ychwanegol. Dywedodd ychydig o awdurdodau lleol hefyd fod ceisiadau am asesiadau ADY gan ddarparwyr blynyddoedd cynnar wedi cynyddu, hefyd.

Wrth ymateb i ymholiadau gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, nododd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg:

> Dydyn ni ddim wedi symud oddi wrth ddatganiad fy rhagflaenydd fod 'cael ADY yr un fath â chael AAA.' Mae'n parhau i fod yn wir 'os oes gan blentyn neu berson ifanc AAA, mae hefyd yn debygol fod ganddo ADY. Dylid darparu CDU ar gyfer pob disgybl a osodwyd yn briodol ar y gofrestr AAA o dan y system ADY os oes angen DDdY arno o hyd (ac yn achos person ifanc, rhaid iddo gydsynio i gael CDU (Llywodraeth Cymru, 2022b, tud.3).

Rhoddodd y datganiad hwn eglurder ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru.

## Adolygu DDdY yn gyson

Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd statudol i adolygu'r DDdY a drefnir ganddynt yn gyson, a'r DDdY a drefnir gan gyrff llywodraethol eu hysgolion a gynhelir. Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y graddau y mae trefniadau'n ddigonol i ddiwallu ADY plant a phobl ifanc. Os yw awdurdod lleol yn ystyried nad yw trefniadau'n ddigonol, rhaid iddo

gymryd yr holl gamau rhesymol i gywiro'r mater. Er bod llawer o weithgarwch o ran adolygu DDdY yn gyson, nid oedd ychydig o'r awdurdodau lleol yr ymgysylltom â nhw yn ddigon ymwybodol o'r ddyletswydd hon, ac roedd yr oruchwyliaeth sydd gan awdurdodau lleol ar ehangder darpariaeth ddysgu ychwanegol yn rhy amrywiol.

Rhoddodd Pennod 5 y Cod ADY drafft (Llywodraeth Cymru 2018) ganllawiau defnyddiol iawn i awdurdodau lleol wrth gyflawni'r ddyletswydd hon. Fodd bynnag, lleihawyd hyn i un paragraff yn y Cod ADY terfynol (Llywodraeth Cymru, 2021, ac mae'n awgrymu gweithgarwch y gallai awdurdodau lleol ei gynnwys wrth adolygu DDdY yn gyson. Mae mwy o ganllawiau yn debygol o fod yn hynod fuddiol ar gyfer yr awdurdodau hynny nad ydynt yn ddigon ymwybodol o'r ddyletswydd.

Mae llawer o awdurdodau lleol wedi manteisio ar y cyfle i adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth mewn dosbarthiadau arbenigol ac ysgolion arbennig a chynllunio newidiadau. Ar gyfer y cyfnod rhwng Medi 2022 a 23 Mehefin 2023, derbyniom 15 o gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion. Nod traean o'r rhain yw naill ai sefydlu darpariaeth ADY newydd, neu ymestyn darpariaeth ADY bresennol. Mae dau awdurdod lleol, sef Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent, yn cynllunio newidiadau sylweddol mewn mwy nag un lleoliad. O ran yr holl gynigion sy'n cyfeirio at newidiadau i ddarpariaeth ADY, rydym yn parhau i nodi ychydig o wendidau cyffredin, fel: diffyg gwybodaeth am recriwtio staff a hyfforddiant arbenigol pan gaiff cyfleusterau newydd eu hagor, neu pan ehangir darpariaeth bresennol, a diffyg ystyriaeth i sut gallai unrhyw ddarpariaeth newydd neu ehangach mewn ysgolion prif ffrwd effeithio ar y lleoliad prif ffrwd.

Rhwng Medi 2021 a Gorffennaf 2023, cynhaliom naw arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol. Ym mhob un o'r arolygiadau hyn, ystyriom pa mor dda yr oedd yr awdurdod lleol yn cynorthwyo disgyblion ag ADY. Ym mhob un, gwelsom fod y perthnasoedd rhwng swyddogion awdurdodau lleol ac ysgolion yn gryf a bod yr awdurdodau lleol yn darparu cyngor, cymorth ac arweiniad defnyddiol a gwerthfawr. Roedd meysydd i'w gwella yn gysylltiedig â diffyg strategaeth ac arweinyddiaeth glir o ran ADY; anghysondebau wrth werthuso gwasanaethau a darpariaeth ar gyfer disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o'r adolygiad thematig hwn, nodom ble mae grwpiau "cynllunio strategol ADY" yn bodoli, fod y gynrychiolaeth yn tueddu i fod wedi'i chyfyngu i swyddogion awdurdodau lleol ac nid yw fel rheol yn cynnwys y DECLO neu gydweithwyr o'r trydydd sector, er enghraifft (Estyn, 2023a, b, c).

**Gwella gwerthuso, cynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA) a disgyblion eraill y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt**

Yn ystod ein hymweliad monitro i Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol ym Mhowys yn 2021, nodom fod y Cyngor wedi ailstrwythuro'i wasanaethau ADY a bod swyddogion wedi datblygu perthnasoedd gweithio da ag ysgolion. Roedd swyddogion wedi ymateb yn dda i safbwyntiau penaethiaid a Chydlynwyr ADY wrth iddynt roi systemau a phrosesau newydd ar waith. O ganlyniad, roedd uwch arweinwyr mewn ysgolion o'r farn eu bod yn cael cymorth da gan yr awdurdod lleol.

Yn gyffredinol, nid oedd ysgolion yn y sampl yn ymwybodol o sut mae'r awdurdod lleol yn adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn gyson. Dywedodd yr ysgolion hynny sy'n

cynnal dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol, er enghraifft, yr ymgynghorir â nhw pan ehangir eu darpariaeth neu pan fydd newid sylweddol yn anghenion y disgyblion. At ei gilydd, roedd dull awdurdodau lleol o ran monitro ansawdd y darpariaethau hyn yn rhy amrywiol.

Mae llawer o ysgolion, fel rhan o'r agenda diwygio ADY, wedi cryfhau eu trefniadau yn ddiweddar ar gyfer adolygu darpariaeth ychwanegol yn gyson. O dan ganllawiau'r arweinydd trawsnewid rhanbarthol ac/neu awdurdodau lleol, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn y sampl wedi archwilio a chategoreiddio'r ddarpariaeth y maent yn ei threfnu. O ganlyniad, roedd gan Gydlynwyr ADY ddealltwriaeth glir iawn, ar y cyfan, o'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn eu hysgol. Dros gyfnod, mae'r ddarpariaeth hon fel arfer wedi cael ei haddasu'n dda i ddiwallu anghenion newidiol y disgyblion.

Mae llawer o ysgolion wedi creu 'cofrestrau monitro'. Defnyddir y rhain i olrhain cynnydd disgyblion nad ydynt yn derbyn darpariaeth ddysgu ychwanegol ar hyn o bryd, ond y gallent yn y dyfodol. At ei gilydd, nid yw cofrestrau monitro fel rheol yn rhan o systemau gwybodaeth reoli ysgolion. Mae ychydig iawn o awdurdodau lleol a gymerodd ran yn yr adolygiad wedi buddsoddi mewn mapiau darpariaeth electronig ar gyfer pob un o'u hysgolion, sy'n cefnogi eu monitro parhaus. Mae hyn yn golygu y gall ysgolion olrhain y cynnydd a wna disgyblion yn yr ymyriadau y maent yn eu cael.

**Cynigion cwricwlwm unigoledig a theilwredig i ddileu rhwystrau rhag dysgu a galluogi pob un o'r disgyblion i gyflawni**

Er mwyn cefnogi disgyblion yn fwy effeithiol, nododd Ysgol Uwchradd Y Rhyl dri maes angen a datblygu ei darpariaeth yn unol â hynny. Nodom yn ein harolygiad diweddar fod Hafan yn rhaglen ymyrraeth sy'n cynorthwyo disgyblion y mae eu hymddygiad yn rhwystr rhag ymgysylltu. Cyflawni – yn cynorthwyo disgyblion ag ADY, a Lles – yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion emosiynol, gan gynnwys anghenion iechyd meddwl.

**Ymagwedd integredig at ddarpariaeth arbenigol**

Mae Ysgol Gyfun Trefynwy yn cynnal dosbarth arbenigol awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag ADY. Crëwyd swydd uwch arweinydd i ddatblygu a gweithredu gweledigaeth ar y cyd ar draws yr ysgol. Yn ein harolygiad diweddar, nodom fod yr ysgol yn adolygu a mireinio'r ddarpariaeth yn barhaus. Un o nodweddion canolog y ddarpariaeth yw cynnwys disgyblion o'r dosbarth arbenigol mewn gweithgareddau prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion o'r brif ffrwd, lle bo'n briodol.

## Arfer a darpariaeth cwricwlwm gynhwysol neu DDdY?

Yn ei llythyr at gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, nododd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg:

> rydym yn disgwyl i fwy o ddysgwyr a oedd ar y lefel AAA gweithredu gan yr ysgol yn y gorffennol gael eu cynorthwyo fel rhan o addysgu gwahaniaethol ac arfer addysg gynhwysol (Senedd Cymru, 2023, tud.3).

Mae cysyniad ac arfer cael ymateb graddedig i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY yn ofyniad o hyd, ac ar waith ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw.

Mae'r Cod ADY yn glir ac yn datgan:

> ***dylai*** ysgolion a gynhelir, SABau [colegau addysg bellach] ac awdurdodau lleol fabwysiadu ymateb graddedig o ran plant a phobl ifanc ag ADY, gan ddefnyddio ystod eang o strategaethau. Mae hyn yn golygu y dylai'r DDdY sy'n cael ei gwneud fod ar y lefel isaf sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. (Llywodraeth Cymru 2021e, tud.231)

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r termau ymateb graddedig ac ymagwedd raddedig yn gyfnewidiol. Rhagdybir eu bod yn cyfeirio at yr un broses.

Yn ei hanfod, mae Rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol: cwestiynau cyffredin Llywodraeth Cymru yn glir i'r graddau bod:

> ymagwedd raddedig o dan y system ADY yn wahanol i'r ymagwedd raddedig o dan y system AAA…o dan y system AAA, ni roddwyd pob lefel o'r ymagwedd raddedig mewn cynllun statudol (datganiad)…o dan y system ADY, bydd pob lefel o'r ymagwedd raddedig yn cael eu rhoi mewn cynllun statudol (CDU). (Llywodraeth Cymru, 2022a, A20).

Yn anffodus, ni chaiff y croywder a'r eglurder a ddarperir yn y Cwestiynau Cyffredin ei ailadrodd yn y Cod ADY, yn hyn o beth.

**Darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY**

Mae Ysgol Gyfun Llangefni yn ysgol uwchradd ddwyieithog. Yn ein harolygiad diweddar, amlygom fod cymorth ar gyfer disgyblion yn canolbwyntio ar ddeilliannau a bod strategaethau addysgu yn amlygu anghenion disgyblion ag ADY. Yn ychwanegol, nodom fod arfer effeithiol o ran paratoi staff, gan gynnwys llywodraethwyr, ar gyfer diwygio ADY.

Mae awdurdodau lleol ac ysgolion a gymerodd ran yn yr adroddiad thematig hwn wedi cael eu cynghori a'u cynorthwyo wrth ystyried a dosbarthu'r cwricwlwm a chymorth, a thrwy oblygiad, yr ymateb graddedig a wnânt ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, caiff termau fel cyffredinol, cyffredinol a mwy, targedig, arbenigol ac arbenigol, yn cynnwys darpariaeth amlasiantaethol, eu deall yn gynyddol gan awdurdodau lleol a'u defnyddio gan ysgolion. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r termau hyn o reidrwydd yn ymddangos yn y Cod ADY. Mae'r Cod ADY yn awgrymu:

> **gallai'r** ymateb graddedig, er enghraifft, gael ei alw yn a] darpariaeth yn yr ysgol [cyflwynir DDdY gan staff sy'n gweithio yn yr ysgol] b] darpariaeth dargedig [cyflwynir DDdY gan staff arbenigol fel therapyddion lleferydd ac iaith] a c] darpariaeth benodol [fel lleoliad mewn ysgol arbennig] (2021, A20). Byddai'n ymddangos felly bod gan awdurdodau lleol ac ysgolion hawl i ddosbarthu eu darpariaeth a'u hymateb graddedig fel y gwelant yn addas.

Fodd bynnag, mae hyn wedi arwain at ddryswch helaeth [fel a gefnogir yn yr enghreifftiau a roddir yn Atodiad 3]. Er enghraifft, gallai awdurdodau lleol ac ysgolion gyfeirio at ddarpariaeth y tu hwnt i ddarpariaeth ar y lefel gyffredinol fel darpariaeth “dargedig” ond nid ei hystyried yn DDdY. Mae’r defnydd awgrymedig o’r term “targedig” yn y Cod ADY yn cyfeirio at ddarpariaeth sy’n DDdY.

Felly, at ei gilydd, er bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn glir, ar y cyfan, am y ddarpariaeth y maent yn ei threfnu ar gyfer disgyblion, mae’r graddau y caiff darpariaeth o’r fath ei dosbarthu yn DDdY yn amrywio. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd dim ond pan dybir bod darpariaeth yn DDdY yr ystyrir bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, a bod angen DDdY arno.

Roedd yr ysgolion hynny sydd wedi cael cymorth da gan eu hawdurdod lleol neu’u harweinydd trawsnewid rhanbarthol yn meddu ar ddealltwriaeth gliriach, ar y cyd, yn gyffredinol, o ddarpariaeth ar draws ysgolion yn eu clwstwr, ar y cyfan. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn awdurdodau lleol yn yr un rhanbarth, nid oedd dealltwriaeth gyffredin bob amser o’r termau cyffredinol, targedig neu arbenigol, neu beth mae darpariaeth yn ei olygu o dan bob un o’r categorïau hyn. Mae hyn yn effeithio’n uniongyrchol ar b’un a ystyrir bod gan ddisgybl angen dysgu ychwanegol ai peidio.

Roedd Cydlynwyr ADY unigol yn glir iawn ynghylch yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn ddarpariaeth gyffredinol, gyffredinol a mwy, dargedig, arbenigol a darpariaeth ddysgu ychwanegol yn eu hysgol. Fodd bynnag, ni chaiff y wybodaeth hon ei rhannu’n ehangach gyda staff bob amser, ac ychydig iawn o ysgolion sy’n rhannu’r wybodaeth hon yn gyhoeddus.

Yn gyffredinol, roedd gan staff mewn ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw ddealltwriaeth fwy cadarn o’r hyn y mae’r ysgolion yn ystyried ei bod yn ddarpariaeth gyffredinol, dargedig, arbenigol ac yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol na staff mewn ysgolion uwchradd. Dywedodd ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl fod ganddynt gynrychiolwyr ADY dynodedig mewn adrannau. Yn ychwanegol, roedd Cydlynwyr ADY yn gweithio gyda phenaethiaid adrannau neu feysydd dysgu i bennu sut beth yw darpariaeth gyffredinol, dargedig a darpariaeth ddysgu ychwanegol yn eu hadran. Mae hyn yn ddatblygiad diddorol, ond mae’n rhy gynnar i farnu’r effaith.

Er gwaethaf hyder ysgolion yn y systemau cymorth y maent yn eu cynnig, gellir dadlau bod darpariaeth, sydd wedi’i chategoreiddio gan ysgolion yn ddarpariaeth gyffredinol a mwy, darpariaeth dargedig, arbenigol neu arbenigol, yn cynnwys cymorth amlasiantaethol yn DDdY, mewn gwirionedd. Mewn achosion o’r fath, byddai disgyblion sy’n cael mynediad at ddarpariaeth o’r fath yn cael eu hystyried yn ddisgyblion sydd ag ADY a byddai ganddynt hawl i gael CDU.

At ei gilydd, roedd Cydlynwyr ADY yn fwy hyderus o ran defnyddio mapiau darpariaeth sy’n cofnodi ystod lawn y ddarpariaeth yn yr ysgol. Mae mapiau darpariaeth yn amrywio o’r rhai sy’n cael eu storio ar daenlenni pwrpasol ar liniadur y CydADY, i feddalwedd sydd wedi’i hintegreiddio i system gwybodaeth reoli’r ysgol neu’r awdurdod lleol. Mae’r mapiau darpariaeth mwy soffistigedig yn cofnodi gwybodaeth am y math o ymyrraeth, a’r amlder. Cânt eu defnyddio i nodi targedau disgyblion, olrhain y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud a llunio barnau ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth a drefnwyd.

**Cymorth strategol ar gyfer mapiau darpariaeth mewn ysgolion**

Mae awdurdod Casnewydd wedi cefnogi datblygiad mapiau darpariaeth ar draws ei ysgolion. Mae'r awdurdod yn defnyddio swyddogaethau dangosfwrdd i wirio ansawdd proffiliau un dudalen, cynlluniau datblygu unigol a llinellau amser ar gyfer cynnal adolygiadau ar gynnydd disgyblion, er enghraifft. Gall yr awdurdod hwn fod yn eithaf hyderus ei fod wedi darparu ffordd briodol ac effeithlon ar gyfer ei ysgolion i bennu p'un a oes gan ddisgybl ADY ac i fonitro cynnydd disgyblion.

**Canllawiau rhanbarthol ar y rhesymeg ar gyfer mapiau darpariaeth ysgol**

Mae awdurdodau lleol yn rhanbarth Canolbarth y De yn elwa ar ganllawiau clir ar y rhesymeg ar gyfer defnyddio mapiau darpariaeth yn eu hysgolion.

Mae'n galonogol fod pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cydnabod pwysigrwydd addysgu o ansawdd uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion fel rhan o ddarpariaeth gyffredinol. Yn yr ysgolion hynny lle mae'r CydADY yn aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth, neu ble mae gweithio hynod effeithiol a sefydledig rhwng y CydADY a'r uwch dîm arweinyddiaeth, caiff cysyniad addysgu o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion ag ADY ei gyflwyno'n llwyddiannus mewn cynllunio strategol ar gyfer y cwricwlwm, dysgu proffesiynol, a threfniadau sicrhau ansawdd. Er nad yw rôl y CydADY mewn sicrhau ansawdd addysgu disgyblion ag ADY wedi'i hamlinellu'n eglur yn y Cod ADY, mae ychydig o ysgolion yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'w CydADY fonitro'r agwedd hon ar y ddarpariaeth fel rhan o'u rôl. Mae'r rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol ar-lein (lefel ganolraddol) yn cydnabod:

> bydd gan Gydlynwyr ADY rôl ganolog mewn cynorthwyo ymarferwyr prif ffrwd i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY…Fel arbenigwr mewn addysgu a dysgu o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr ag ADY, bydd y CydADY mewn sefyllfa well i fentora ymarferwyr (Llywodraeth Cymru, 2022e, P14 tud.13).

**Cynrychiolwyr ADY adrannau mewn ysgol uwchradd**

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun yn Rhondda Cynon Taf wedi sefydlu cynrychiolydd ADY o bob un o'i hadrannau. Mae'r cydweithwyr hyn yn mynychu cyfarfodydd ac yn trafod cynnydd a lles disgyblion ag ADY. Mae disgwyliadau clir ar rôl yr holl athrawon o ran diwallu anghenion disgyblion ag ADY. O ganlyniad, mae ethos o gyfrifoldeb ac atebolrwydd ar gyfer cynnydd dysgwyr ag ADY yn cynyddu'n raddol yn yr ysgol.

Yn gryno – At ei gilydd, bu gostyngiad yn nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol ar gofrestrau ADY mewn ysgolion. Mae'r newidiadau hyn yn amrywio o fewn y rhanbarthau, a rhyngddynt. Er gwaethaf gostyngiad yn nifer y disgyblion sydd â datganiad o AAA, mae ychydig dros 9,000 yn fwy o ddisgyblion yn derbyn naill ai datganiad o AAA neu CDU statudol. Yn gyffredinol, roedd gan Gydlynwyr ADY ddealltwriaeth glir iawn o ddarpariaeth yn eu hysgolion, ac mae'r ddarpariaeth hon fel arfer wedi cael ei haddasu'n dda i ddiwallu anghenion newidiol y disgyblion. Mae llawer o ysgolion wedi archwilio a

chategoreiddio'u darpariaeth. Fodd bynnag, mae'r graddau y gellir ystyried bod darpariaeth yn DDdY yn aneglur. Roedd ychydig o awdurdodau lleol ac ysgolion yn aneglur ynglŷn â'r diffiniadau cyfreithiol a beth roedd hyn yn ei olygu yn ymarferol.

# Pontio o AAA i ADY

## Trosolwg o'r bennod

Mae'r bennod hon yn ystyried y newidiadau i gyfnod gweithredu diwygio ADY a sut mae awdurdodau lleol ac ysgolion wedi ymateb iddynt. Rydym hefyd yn ystyried rôl CydADY ysgol. Rydym yn amlygu cydweithio cynyddol rhwng ysgolion a rôl newydd y CydADY clwstwr. Er na wnaethom ystyried effaith diwygio ADY ar y sector ôl-16 yn fanwl, rydym yn amlygu mai megis dechrau datblygu yr oedd strategaethau awdurdodau lleol ar gyfer yr agwedd hon ar ddiwygio.

Mae datblygu arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cael ei fabwysiadu'n frwdfrydig gan ysgolion. Dywedant fod perthnasoedd â rhieni yn gryfach a bod rhieni'n hyderus, ar y cyfan, am y ddarpariaeth y mae ysgolion yn ei threfnu ar gyfer disgyblion, gan gynnwys pan nad yw trefniadau'n ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae CDU ar gyfer pob plentyn ag ADY. Ceir arferion diddorol i sicrhau ansawdd y rhain. Fodd bynnag, rydym yn sylwi nad yw rhieni ac ysgolion bob amser yn glir am y CDUau hynny a fydd yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol.

Sylwn hefyd fod ysgolion wedi dibynnu ar wybodaeth ac arweiniad gan eu hawdurdodau lleol, gan gynnwys yr arweinydd trawsnewid ADY rhanbarthol, ac nad ydynt bob amser wedi defnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys deunyddiau hyfforddi. At ei gilydd, mae arweiniad a gwybodaeth sydd wedi'u cynnwys ar wefannau awdurdodau lleol ac ysgolion yn rhy amrywiol o ran ansawdd ac nid yw hi bob amser yn hawdd dod o hyd iddynt.

Un o uchelgeisiau'r Ddeddf ADY a diwygio yw cydweithio a rhannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau. Mae'r adroddiad thematig hwn yn nodi bod hyn yn rhy amrywiol.

At ei gilydd, mae awdurdodau lleol yn gwella darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau o ran recriwtio staff â'r medrau arbenigol perthnasol. Yn ychwanegol, nid yw'n anghyffredin i leoliadau cyfrwng Cymraeg gyfieithu adnoddau, gan gynnwys deunyddiau asesu.

## Cyfnod gweithredu

Yn wreiddiol, roedd disgwyl i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg gael ei gweithredu dros y cyfnod tair blynedd, 2020-2023. Oherwydd effaith y pandemig, symudwyd y cyfnod gweithredu ymlaen flwyddyn i Fedi 2021- Awst 2024. Ym mis Mawrth 2023, ychwanegwyd blwyddyn arall. Mae hyn yn golygu y bydd y ddeddf yn cael ei gweithredu nawr dros bedair blynedd ac yn cael ei chwblhau erbyn Awst 2025.

Yn ystod y cyfnod gweithredu, mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer AAA ac ADY yn berthnasol. O ganlyniad, mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithio yn unol â dau fframwaith deddfwriaethol gwahanol. Mae hyn wedi creu baich gwaith ychwanegol sylweddol i awdurdodau lleol ac ysgolion, fel ei gilydd.

At ei gilydd, roedd awdurdodau lleol ac ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn croesawu'r newid cychwynnol yn y cyfnod gweithredu, ac yn ei weld yn fuddiol. Defnyddiodd y naill a'r llall yr amser yn ystyrlon a pharhau i gynllunio ar gyfer gweithredu. Gwnaed ychwanegiadau at strwythurau sefydliadol, diweddarwyd deunyddiau arweiniad, a pharhaodd Cydlynwyr ADY i archwilio darpariaeth ysgolion, a phan oedd trefniadau o'r fath yn bodoli, gweithiwyd yn agosach gyda Chydlynwyr ADY eraill i ddatblygu dealltwriaeth o CDUau o ansawdd da, er enghraifft.

O ganlyniad i bryderon a godwyd gan gyfarwyddwyr addysg, penaethiaid a rhanddeiliaid eraill, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Mawrth 2023 y byddai'r cyfnod gweithredu'n cael ei ymestyn flwyddyn. Yn ei gyhoeddiad, dywedodd y Gweinidog 'mae'n hanfodol i'n dysgwyr ag ADY ein bod yn gweithredu'r ddeddfwriaeth hon mewn ffordd effeithiol' (Llywodraeth Cymru, 2023d). Roedd y cyhoeddiad yn cyd-fynd â datganiad ar gyllid ychwanegol.

Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn yn feirniadol am ymestyn y cyfnod hwn, a'i amseriad. Maent yn bwriadu cadw at eu cynlluniau gwreiddiol a chwblhau'r gweithredu erbyn Awst 2024.

Mae papur Ymchwil y Senedd, Llywodraeth Cymru yn penderfynu bod angen rhagor o amser i roi'r newidiadau i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith (2023) yn rhoi trosolwg defnyddiol iawn o'r drefn ar gyfer trosglwyddo dysgwyr i'r system ADY. O ganlyniad i'r cyhoeddiad, mae'n amlygu beth sy'n newid, a beth sydd ddim yn newid.

| Beth sydd ddim yn newid | Beth sy'n newid |
|---|---|
| Bydd dysgwyr newydd y nodwyd bod ganddynt ADY yn cael cymorth o dan y system newydd, fel sydd wedi digwydd er mis Medi 2021 | Bydd y grwpiau blwyddyn y bwriadwyd iddynt drosglwyddo ar ryw adeg rhwng Medi 2023 ac Awst 2024 yn awr yn trosglwyddo rhwng Medi 2023 ac Awst 2025. |
| Bydd dysgwyr mewn grwpiau blwyddyn y trefnwyd eu symud i'r system newydd erbyn Awst 2023 yn parhau i wneud hynny. | |
| Y dull "llifo drwodd" ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n dechrau yn y chweched dosbarth neu mewn addysg bellach o fis Medi 2023, a fydd eisoes wedi trosglwyddo i'r system ADY | |

*Ffynhonnell: Ymchwil y Senedd (2023)*

## Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY)

Fel y nodwyd eisoes, mae rôl Cydlynwyr ADY ysgolion wedi newid yn sylweddol, nid yn unig o ran baich gwaith ond hefyd o ran cyfrifoldeb. Mae awdurdodau lleol yn adrodd ar faich gwaith a chyfrifoldeb cynyddol Cydlynwyr ADY, hefyd. Mae'r Cod ADY yn nodi'n glir: 'mae'n hanfodol bod gan y CydADY amser ac adnoddau digonol i gyflawni ei

ddyletswyddau yn effeithiol, gan gynnwys amser wedi'i neilltuo y tu allan i'r ystafell ddosbarth' (Llywodraeth Cymru, 2021), para 8.5 tud. 71). Mae gan lawer o Gydlynwyr ADY rolau arwain ac/neu addysgu eraill yn eu hysgol. Mae hyn yn lleihau'r amser y gallant ei neilltuo i oruchwylio ansawdd y ddarpariaeth, gan gynnwys cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY. Roedd llawer o Gydlynwyr ADY o'r farn nad ydynt yn cael digon o amser i gyflawni eu rôl mor effeithiol ag yr hoffent.

Roedd y Cydlynwyr ADY a gymerodd ran yn yr arolwg hwn yn frwdfrydig ac ymroddgar. Un o nodweddion arwyddocaol ein trafodaethau â nhw oedd eu hawydd i wella addysgu disgyblion ag ADY. Dylanwadodd y Cydlynwyr ADY hynny a oedd yn aelodau o uwch dimau arweinyddiaeth ar benderfyniadau strategol a defnyddio'u swyddi'n dda i hyrwyddo ar gyfer ADY ar draws pob agwedd ar waith yr ysgol, gan gynnwys addysgu, y cwricwlwm a sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid oedd Cydlynwyr ADY nad oeddent yn aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth bob amser o'r farn eu bod yn cael cymorth da gan uwch arweinwyr, a bod eu dylanwad ar lefel ysgol gyfan yn gyfyngedig. Eto, mae'r Cod ADY yn glir:

> y CydADY yw'r unigolyn sy'n mynd ati ar lefel strategol i sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu diwallu…mae ei rôl yn un strategol. (Llywodraeth Cymru, 2021, para 8.7 tud. 71)

Yn ei adroddiad, nododd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (2021 tud.xviii) fod rôl y CydADY 'yn fwy strategol o ran natur ac mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai fod yn rhan o'r tîm arweinyddiaeth'. Aeth ymlaen i argymell 'y dylai gwaith gael ei wneud, ochr yn ochr â gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), i bennu sut dylid cydnabod Cydlynwyr ADY yn ariannol'.

Mewn ychydig o ysgolion yn y sampl, mae'r newidiadau i'r system ADY wedi cyd-fynd â phenodi Cydlynwyr ADY hynod brofiadol a hyderus yn ddiweddar. Maent wedi datblygu dealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu hysgolion yn gyflym.

Yn gyffredinol, mae Cydlynwyr ADY wedi cynllunio'n dda ar gyfer gweithredu diwygio ADY ac mae blaenoriaethau priodol wedi cael eu cofnodi mewn cynlluniau datblygu adrannol. Yn yr enghreifftiau gwell, ceir cysylltiadau clir rhwng cynlluniau adrannol a blaenoriaethau ysgol gyfan, gan gynnwys y ffaith fod ADY yn cael ei gynnwys yn briodol yn ansawdd yr addysgu, cynllunio'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, nid oedd ychydig iawn o ysgolion yn gallu mynegi'n ddigon clir pa drefniadau sicrhau ansawdd oedd ar waith, na beth oedd rôl y CydADY o ran cefnogi'r rhain. Yn ychwanegol, nid oedd ychydig o awdurdodau lleol yn glir ynghylch p'un a yw ADY yn rhan o gynlluniau gwella ysgolion neu p'un a yw swyddogion gwella ysgolion yn cael trafodaethau ag ysgolion ynghylch ADY yn gyffredinol, a chynlluniau ar gyfer gweithredu ADY yn fwy penodol. Mae'n anodd iddynt bennu, felly, i ba raddau y mae ysgolion yn barod, a ph'un a oes angen cymorth ychwanegol.

**Cynllunio integredig gan uwch arweinwyr**

Mae uwch arweinwyr Ysgol Uwchradd Pen Y Dre ym Merthyr Tudful ac Ysgol John Frost yng Nghasnewydd wedi cydweithio i sicrhau bod gwella deilliannau a darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn ganolog i'w cynllunio ar gyfer y cwricwlwm, darpariaeth a dysgu proffesiynol pob un o'r staff. Rhoddir pwyslais cadarn ar ddatblygu medrau staff yn effeithiol i ddiwallu anghenion amrywiol yr holl ddisgyblion, gan gynnwys cynwysoldeb.

Cynhaliodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL, 2023) arolwg o arweinwyr ysgolion a gofyn cyfres o gwestiynau iddynt yn gysylltiedig â'u parodrwydd ar gyfer diwygio ADY. O'r 730 o ymatebwyr, nododd y mwyafrif ohonynt (62%) fod ganddynt gyfrifoldeb CydADY, ac roedd ychydig llai na hanner ohonynt yn gweithio fel y CydADY ar gyfer yr ysgol (tud.8). Roedd ychydig dros chwarter o ymatebwyr (26%) o'r farn eu bod yn barod i gyflawni yn unol â gofynion y Ddeddf, gyda'r mwyafrif (64%) yn dweud bod eu lleoliad yn 'weddol barod' (tud. 15). Datgelodd yr arolwg hefyd fod llawer o gydlynwyr anghenion addysgol arbennig (CydAAA) (78%) wedi trosglwyddo i rôl CydADY.

Mae datblygu gweithio mewn clystyrau, dan arweiniad Cydlynwyr ADY clwstwr, wedi helpu sicrhau bod ysgolion yn cael cymorth da i weithredu diwygio ADY. Mae'r dull hwn wedi cael ei dderbyn yn gadarnhaol iawn gan ysgolion yn y sampl. Maent yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r arweiniad a ddarperir gan arweinwyr clystyrau a'r cyfleoedd i weithio gyda chydweithwyr yn eu clwstwr ysgolion. Fodd bynnag, mae cyllid tymor hirach yr ymagwedd gydlynus at weithio mewn clystyrau yn aneglur ac mae hyn yn bygwth cynaliadwyedd yr ymagwedd hon.

Roedd llawer o ymatebwyr yn yr ysgol yn ein hadolygiad thematig o'r farn eu bod yn cael cymorth da gan eu hawdurdod lleol. Yn gyffredinol, mae gan awdurdodau lleol fforwm Cydlynwyr ADY sefydledig. Defnyddir y rhain yn effeithiol fel bod Cydlynwyr ADY yn dilyn hynt a helynt polisi cenedlaethol a lleol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i Gydlynwyr ADY rannu profiadau ac arferion. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl wedi derbyn cymorth a chyngor gan eu hawdurdodau lleol mewn modd digon amserol. Yn ychwanegol, nid oes gan swyddogion sy'n cefnogi gwella ysgolion ddealltwriaeth ddigon cadarn o'r sector neu ADY bob amser. O ganlyniad, mae ychydig o ysgolion uwchradd wedi sefydlu eu fforwm Cydlynwyr ADY eu hunain lle maent yn rhannu gwybodaeth ac arferion gyda'i gilydd.

**Datblygu arweinwyr / eiriolwyr clwstwr mewn awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, De Ddwyrain Cymru a Chanol De Cymru**

Dros y cyfnod trawsnewid ADY, defnyddiwyd y grant ADY i ddatblygu rôl arweinwyr / eiriolwyr clwstwr ADY. Rhoddodd arweinwyr clwstwr gymorth ar gyfer cyflwyno agweddau ar y cynllun gweithredu ADY rhanbarthol a'r cynlluniau clwstwr. Canolbwyntion nhw ar gynorthwyo ysgolion i archwilio darpariaeth a rhannu gwybodaeth am ddarpariaeth ADY yn eu clwstwr, gan felly ddatblygu dealltwriaeth well a dull cyson. Sefydlon nhw rwydweithiau i Gydlynwyr ADY rannu syniadau ac arferion, gan gynnwys cefnogi datblygiad templedi CDU rhanbarthol. Yn ychwanegol, buont yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau ansawdd CDUau.

At ei gilydd, mae rôl yr arweinydd / eiriolwr clwstwr wedi cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan ysgolion.

## Ôl-16

Nid yw'r adolygiad thematig hwn yn ystyried mater ôl-16 yn fanwl iawn. Fodd bynnag, gofynnom i awdurdodau lleol amlinellu eu strategaeth ar gyfer darpariaeth ôl-16. At ei gilydd, roedd hi'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu strategaethau i gefnogi'r agwedd hon ar ddiwygio ADY.

Gallai dysgwyr y tu hwnt i oedran ysgol statudol dderbyn eu haddysg naill ai mewn: ysgolion a gynhelir gyda dosbarthiadau chweched, ysgolion arbennig a gynhelir gyda dosbarthiadau chweched, colegau addysg bellach, neu sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol (ISPSI), sy'n cael eu hadnabod fel colegau arbenigol annibynnol, fel arall. Gallent hefyd ddilyn opsiynau eraill fel prentisiaethau neu gyflogaeth. Mae'r ddwy enghraifft olaf yn disgyn y tu allan i gwmpas Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. O'r herwydd, ni fyddai'r bobl ifanc hyn yn cael eu hystyried yn bobl ifanc sy'n derbyn DddY, mwyach. Felly, ni fyddai ganddynt ADY neu'n cael eu cefnogi gan CDU.

Yn ei ddatganiad ysgrifenedig (Mawrth 2022), cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y byddai dysgwyr (ym Mlwyddyn 10 ac yn is ar hyn o bryd) oedd â CDU eisoes:

> yn cael eu sianelu i addysg bellach gyda'r cynllun hwnnw. Byddai'r trefniant hwn yn lleddfu pwysau ar awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach a ysgogwyd oherwydd y…pandemig a diwygio addysg ehangach

I bob pwrpas, byddai dysgwyr a oedd ym Mlwyddyn 10 adeg y cyhoeddiad yn dechrau mewn addysg ôl-16 ym mis Medi 2023.

Eglurodd y cyhoeddiad y sefyllfa hefyd ynglŷn â'r cyfrifoldeb am sicrhau ac ariannu darpariaeth ar gyfer dysgwyr â'r anghenion mwyaf cymhleth sy'n mynychu colegau arbenigol annibynnol. Daeth awdurdodau lleol yn gyfrifol am y dysgwyr hynny a symudodd i'r system ADY o 2022-2023, ond bydd y cyllid ar gyfer lleoliadau, i'w gytuno cyn diwedd 2024-2025, yn parhau i fod ar gael hyd nes bydd dysgwyr yn cwblhau eu hastudiaethau ac yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cael trafodaethau ag awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

Yn ein hadroddiad thematig yn 2022 o ran y rôl y mae Gyrfa Cymru yn ei chwarae i gefnogi pontio disgyblion ag ADY, nodom:

> nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi eto sut bydd Gyrfa Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu'r cymorth hwn o dan y system ADY ddiwygiedig. (Estyn, 2022, tud.1).

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae Gyrfa Cymru wedi amlinellu eu Cynnig Gwasanaeth ar gyfer 2022-2023 (Atodiad 2). Mae hyn yn cynnwys:

- cymorth un i un ar gyfer pobl ifanc ag ADY, h.y. y rhai sy'n derbyn datganiad o AAA neu CDU
- mynychu adolygiadau, lle ceir gwahoddiad, ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 10 ac 11 sydd â datganiadau o AAA
- blaenoriaethu cymorth ar gyfer cynllunio pontio i ddisgyblion Blwyddyn 11 sydd ag anghenion cymhleth

Yn ychwanegol, bydd Gyrfa Cymru yn parhau i goladu a chyflwyno ceisiadau am gyllid colegau arbenigol. Ymhen amser, bydd cynghorwyr gyrfaoedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau.

Dywedodd yr awdurdodau lleol hyn a oedd wedi penodi swyddogion ôl-16 dynodedig eu bod yn datblygu partneriaethau strategol cryfach gyda darparwyr addysg bellach. Mae'n dod yn gynyddol gyffredin i Gydlynwyr ADY o golegau addysg bellach prif ffrwd fynychu adolygiadau o ddisgyblion sy'n debygol o drosglwyddo i'r coleg. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth sydd gan awdurdodau lleol am golegau arbenigol annibynnol, a'u hymgysylltiad â nhw o ganlyniad, yn llai cadarn, ac o ganlyniad, mae eu hymgysylltiad â nhw yn fwy cyfyngedig. O ganlyniad, ni all awdurdodau lleol wneud penderfyniadau gwybodus am ystod lawn y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar draws y sector ôl-16, pan maent yn gwybod cyn lleied am y sector a'r hyn y mae'n ei ddarparu.

Cyfeiriodd ychydig o awdurdodau lleol at ddatblygu protocolau pontio rhyngddyn nhw eu hunain, ysgolion, a darparwyr addysg bellach. Dywedodd ychydig o ysgolion fod trefniadau o'r fath eisoes ar waith rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach prif ffrwd, a'u bod yn aneglur ynglŷn â manylion protocolau pontio a ddatblygwyd yn ddiweddar. Nid oedd yr un awdurdod lleol yn gallu darparu gwybodaeth bendant am sut byddai'r broses i sicrhau CDUau yn gweithio.

**Rhannu Swyddog Arweiniol ADY**

Wrth adeiladu ar ei strategaeth "Dechrau'n Dda", mae Cyngor Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro wedi rhannu swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer pobl ifanc 14–25 mlwydd oed. Mae'r swyddog arweiniol ADY yn cydweithio ag ystod o asiantaethau, gan gynnwys ysgolion, y coleg a sefydliadau iechyd i gefnogi cyfnod pontio effeithiol a lleoli dysgwyr ag ADY.

### Arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Roedd awdurdodau lleol ac ysgolion a gymerodd ran yn unfryd yn eu brwdfrydedd ar gyfer arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chynllunio.

Dros gyfnod, ac ar sail eu profiadau, mae llawer o ysgolion wedi mireinio eu dulliau i ddiwallu anghenion disgyblion, eu teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol eraill yn fwy effeithiol. Er enghraifft, trwy sesiynau cyn cyfarfodydd, mae staff ysgol wedi cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu hyder i gyfathrebu a mynegi eu barn mewn ffyrdd sy'n ystyrlon iddynt. Fodd bynnag, mae sicrhau barn plant ifanc iawn a'r rhai ag ADY cymhleth yn heriol. Mae staff ysgolion wedi defnyddio sesiynau cyn cyfarfodydd hefyd i esbonio i rieni sut bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal, eu diben, a rhoi cyfleoedd i rieni ofyn cwestiynau am y broses a darpariaeth a awgrymir. Mae ysgolion wedi rhoi cyfleoedd i rieni rannu gwybodaeth sensitif neu fynegi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt y tu allan i'r cyfarfod ffurfiol. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid yw presenoldeb swyddogion awdurdodau lleol mewn cyfarfodydd am arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi bod yn fuddiol. Yn gyffredinol, nid yw teuluoedd yn gyfarwydd â swyddogion ac mae eu presenoldeb wedi golygu nad yw teuluoedd wedi cyfrannu mor agored ag yr oedd ysgolion wedi'i ddisgwyl.

**Datblygu arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion ar draws ysgol bob oed**

Mae staff yn Ysgol Llanhari wedi gweithio gyda rhieni a disgyblion i greu proffiliau "amdanaf i" priodol ac effeithiol. Mae'r rhain yn cofnodi gwybodaeth werthfawr am ddisgyblion ac wedi cael eu defnyddio i addasu darpariaeth a chymorth. Er enghraifft, maent wedi cael eu defnyddio i gefnogi presenoldeb gwell disgyblion unigol trwy ymateb i'r amgylchiadau sydd wedi achosi gorbryder iddynt. Mae'r ysgol wedi defnyddio gwybodaeth wedi'i darparu gan ddisgyblion hefyd i ddylanwadu ar benderfyniadau am y cwricwlwm, er enghraifft trwy ddarparu hyfforddiant priodol i staff wella'r defnydd o brofiadau dysgu yn yr awyr agored.

**Meithrin cysylltiadau effeithiol â rhieni i gefnogi tegwch mewn dysgu**

Yn ystod yr arolygiad o Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Borthyn, sylwom fod y CydADY yn gweithio'n effeithiol gyda staff i sicrhau bod cymorth effeithiol ar gyfer pob plentyn. Caiff proffiliau un dudalen eu trafod a'u cytuno gyda rhieni, a'u hadolygu bob tymor. Mae'r ysgol yn cyfeirio rhieni tuag at asiantaethau eraill sy'n gallu cynnig cymorth, gan gynnwys gweithiwr cyswllt â theuluoedd yr ysgol.

Pan na all rhieni neu weithwyr proffesiynol eraill fynychu wyneb yn wyneb, mae llawer o ysgolion wedi addasu hyn trwy gynnwys cyfranogwyr mewn cyfarfodydd rhithwir neu hybrid. Mae dulliau fel y rhain, a chynnwys rhieni'n fwy mewn trafodaethau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu plentyn yn fwy cyffredinol, wedi cryfhau perthnasoedd rhwng ysgolion a theuluoedd.

Defnyddiwyd cyllid Llywodraeth Cymru i hyfforddi staff mewn arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn am flynyddoedd lawer. Mae awdurdodau lleol sydd wedi buddsoddi mewn modelau 'hyfforddi'r hyfforddwr' yn gallu cynnal hyfforddiant a chymorth ar gyfer ysgolion. Yn gyffredinol, staff awdurdodau lleol o wasanaethau ADY, Cydlynwyr ADY ysgolion a staff cymorth perthnasol sydd wedi elwa ar hyfforddiant mewn arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Pan fydd ymarferwyr arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r rhain yn bodoli, cawsant eu defnyddio i ddarparu hyfforddiant, cymorth ac arweiniad i

ysgolion, ac maent wedi bod yn sicrhau ansawdd arferion yn gynyddol, gan gynnwys rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, er enghraifft. Fodd bynnag, mae'r ymagwedd gyffredinol at sicrhau ansawdd arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ledled Cymru, gan gynnwys nodi'r arferion sydd fwyaf effeithiol, yn anghyson.

Er gwaethaf manteision clir y dull arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, soniodd bron pob un o'r darparwyr yn y sampl am y baich gwaith ychwanegol mae hyn yn ei greu. Dywed ysgolion y gall gymryd rhwng 3½ a 5 awr i bob disgybl. Mae hyn yn cynnwys cynnal y cyfarfod a'r gweithgareddau gweinyddu yn gysylltiedig â hyn. Mewn un ysgol bob oed, sydd â charfan fawr o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth, neilltuir tuag wyth awr i bob disgybl. Bob blwyddyn, mae'n cymryd tua 12 wythnos i gwblhau'r broses ar gyfer yr holl ddisgyblion. Nid yw'r ysgol yn credu bod hyn yn gynaliadwy.

Mae proffiliau un dudalen yn rhan o'r trefniadau arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn 'disgrifio cymeriad, galluoedd a doniau dysgwr; beth sy'n bwysig iddo; a'r ffordd orau o'i gefnogi' (Llywodraeth Cymru, 2015, tud.15). Yn ogystal â disgyblion ag ADY, mae proffiliau un dudalen yn gyffredinol ar waith ar gyfer dysgwyr nad oes ganddynt angen dysgu ychwanegol ond sy'n derbyn cymorth targedig yn yr ysgol.

Mae'r holl awdurdodau lleol a'r ysgolion a gymerodd ran yn deall pwysigrwydd llais y plentyn. Gall llawer o ysgolion ddarparu enghreifftiau cadarn o sut mae llais y disgybl yn cyfrannu at fywyd ysgol a gwneud penderfyniadau. Nid yw'n anghyffredin i ysgolion ganolbwyntio ar erthyglau perthnasol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fodd bynnag, nid yw ysgolion nac awdurdodau lleol yn ymwybodol o strategaethau lleol sy'n cefnogi datblygu a gweithredu'r safonau cyfranogiad cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc.

## Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)

Darperir CDUau ar gyfer disgyblion y nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol. Maent yn disodli datganiadau o anghenion addysgol arbennig a chynlluniau anstatudol fel cynlluniau addysg neu ymddygiad unigol.

Roedd llawer o ysgolion yn glir y bydd awdurdodau lleol yn cynnal y CDUau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd â chofrestriad deuol, er enghraifft disgyblion sy'n mynychu unedau cyfeirio disgyblion. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r grwpiau hyn, roedd diffyg eglurder a thryloywder ynglŷn â'r CDUau hynny a fydd yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol. Yn ychwanegol, mae anghysondebau clir o ran arfer. Gallai CDU disgyblion sy'n mynychu dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol gael ei gynnal naill ai gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol y maent yn ei mynychu.

Yn gyffredinol, mae ysgolion sydd wedi derbyn cymorth cryf gan eu hawdurdodau lleol a'u harweinwyr trawsnewid rhanbarthol wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ac wedi cyd-lunio templed y CDU. Mewn rhai rhannau o Gymru, mae'r rhain wedi cael eu cytuno ar sail ranbarthol a chânt eu defnyddio ar draws awdurdodau lleol a'u hysgolion. Nid yw ychydig iawn o ysgolion wedi cael eu cynnwys mewn trefniadau o'r fath, ac nid oeddent o reidrwydd yn fodlon â'r templed a ddarperir gan eu hawdurdod lleol. Roeddent yn dadlau nad yw'r ddogfen yn cofnodi gwybodaeth ddigonol am y disgybl. Mewn ychydig o achosion, lle nad yw ysgolion wedi gwerthfawrogi'r arweiniad a'r cymorth gan eu

hawdurdod lleol eu hunain, maent wedi sicrhau templedi a dogfennau eraill gan awdurdodau cyfagos ac wedi dewis eu defnyddio yn lle'r rhai a gyflwynwyd gan eu hawdurdod lleol.

Fel yr adroddwyd yn arolwg NAEL (2023), lleiafrif yn unig o ysgolion oedd yn teimlo'n ddiogel yn datblygu a chynnal CDUau. Dywedodd y mwyafrif ohonynt fod yr arfer hon naill ai'n arfer sy'n datblygu neu'n arfer sy'n dod i'r amlwg.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn gwerthfawrogi'n llawn fod CDUau yn fwy personoledig na datganiadau o AAA, ac yn adlewyrchu cryfderau ac anghenion cymorth disgyblion yn well a sut bydd yr ysgol yn mynd i'r afael â'r anghenion hynny. Fodd bynnag, nodir hefyd y gall CDUau fod yn llafurus i'w hysgrifennu a'u hadolygu, a'u bod yn rhoi baich gwaith ychwanegol ar Gydlynwyr ADY.

Mae hyrwyddwyr a swyddogion CDUau sy'n cefnogi datblygiad CDUau wedi cael eu defnyddio'n effeithiol, ar y cyfan. Maent yn cynorthwyo ysgolion i ddatblygu ansawdd CDUau, gan gynnwys sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodwyd yn eglur, yn cael ei chefnogi gan strategaethau priodol, a bod deilliannau disgwyliedig disgyblion yn briodol a pherthnasol. Mae awdurdodau lleol sydd â niferoedd cymharol uchel o ddatganiadau o AAA yn wynebu heriau penodol o ran rheoli maint y gwaith, a throsglwyddo datganiadau o AAA i CDUau, lle bo'n briodol.

**Siart llif gwneud penderfyniadau**

Yn rhanbarth GCA, rhoddwyd siart llif gwneud penderfyniadau i ysgolion. Roedd hyn o gymorth mawr iddynt o ran sicrhau bod y broses yr oeddent yn ymgymryd â hi yn gywir ac yn cyd-fynd â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. Mae'r siart llif yn ddefnyddiol iawn o ran amlinellu'r camau y mae angen i'r ysgolion eu cymryd i bennu p'un a oes gan ddisgybl ADY, ac wrth gadarnhau'r DDdY yn y cynllun datblygu unigol.

Dywedodd ychydig iawn o ysgolion y gofynnwyd i rieni gytuno i CDUau a gynhelir gan awdurdodau lleol, sy'n amlinellu darpariaeth addysg bellach yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oedd y disgybl, y rhiant na'r coleg addysg bellach wedi ymgymryd â nodi na chytuno i'r ddarpariaeth. Mae'r arfer hon yn codi pryderon ac mae ganddi'r potensial i gael effaith negyddol ar ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn y dyfodol.

At ei gilydd, ceir biwrocratiaeth ddiangen yn aml, yn enwedig o ran plant sy'n derbyn gofal. Efallai bydd yn ofynnol i Gydlynwyr ADY fynychu cyfarfodydd cynllun gofal a chymorth, cyfarfodydd cynllun addysg bersonol a chyfarfodydd ar wahân am arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a CDU ar gyfer disgyblion.

Dywedodd awdurdodau lleol ac ysgolion fod pwysau sylweddol o ran bodloni'r graddfeydd amser statudol ar gyfer cyflwyno CDUau. Dywedodd awdurdodau lleol fod cydweithwyr mewn asiantaethau eraill, yn enwedig asiantaethau iechyd, sy'n cael yr anhawster mwyaf yn darparu cyngor a gwybodaeth o fewn y graddfeydd amser penodol. Yn ychwanegol, mae'r ymrwymiad a wna awdurdodau iechyd i ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn rhy amrywiol. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid yw CDUau a gynhelir gan yr awdurdod lleol wedi cael eu cyflwyno mewn modd digon amserol. Yn

genedlaethol, cyfyngedig yw'r data a gesglir i ddangos pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn bodloni graddfeydd amser statudol ar gyfer cyflwyno CDUau.

### Gwybodaeth a chyngor

Mae Llywodraeth Cymru wedi lanlwytho ystod o ddogfennau i'w gwefan. Mae'r rhain wedi'u cynnwys mewn dwy adran, sef: arweiniad a gwasanaethau, a pholisi a chefndir. Yn gyffredinol, mae gwybodaeth wedi'i hanelu at weithwyr proffesiynol, yn bennaf. Nid yw'n hawdd dod o hyd i'r adnoddau hynny sydd wedi'u hanelu at rieni, ac ni ddarperir dolenni at y deunyddiau e-ddysgu ar-lein defnyddiol iawn a gwybodaeth arall berthnasol sy'n cael ei storio ar Hwb, sef platfform dysgu digidol cenedlaethol Cymru.

Nid yw dogfennau sy'n ymwneud â'r cyhoeddiad diweddaraf ynglŷn ag ymestyn y cyfnod gweithredu wedi cael eu diweddaru.

Heb amheuaeth, mae gweithredu'r Ddeddf yn ystod cyfnod o her sylweddol, oherwydd y pandemig, wedi bod yn dasg anodd ac uchelgeisiol i bawb dan sylw. Fodd bynnag, roedd awdurdodau lleol ac ysgolion yn feirniadol, ar y cyfan, o amseroldeb a defnyddioldeb yr arweiniad, y wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dibynnu'n sylweddol ar eu hawdurdod lleol, a'u harweinydd trawsnewid rhanbarthol, lle bo'n briodol, i ddarparu gwybodaeth sydd wedi'i chloriannu ac yn ystyrlon iddynt. Dywedodd lleiafrif o ysgolion yn y sampl nad ydynt wedi defnyddio'r Cod ADY. Mae ysgolion wedi dibynnu ar y canllawiau a ddarparwyd gan eu hawdurdodau lleol ac wedi gobeithio y byddai'r Cod ADY yn darparu enghreifftiau o arfer.

**Tîm Ansawdd ADY a Chynhwysiant ar y cyd yn Ynys Môn a Gwynedd**

Sefydlwyd y gwasanaeth ar y cyd yn 2017 ac mae wedi cefnogi ysgolion wrth iddynt baratoi i weithredu diwygio ADY. Er enghraifft, mae swyddogion wedi:

- cynorthwyo ysgolion i werthuso a monitro eu map darpariaeth, gan roi cyngor i benaethiaid a'r CydADY
- cynorthwyo ysgolion ac asiantaethau eraill, i ddatblygu perthnasoedd effeithiol â rhieni
- sicrhau ansawdd CDUau
- cyfrannu at waith y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i sicrhau bod y cydweithwyr yn ddigon gwybodus am ddatblygiadau yn yr awdurdodau lleol a'r ysgolion

Yn fwy cyffredinol, mae cydweithwyr mewn ysgolion yn siarad yn ffafriol iawn am y cymorth y mae'r ddau awdurdod hyn wedi'i ddarparu o ran ADY.

Mae bron pob un o'r awdurdodau lleol yn y sampl wedi lanlwytho gwybodaeth berthnasol am ddiwygio ADY i wefan eu Cyngor. Yn ychwanegol, lluniwyd ystod o daflenni gwybodaeth hefyd, sydd wedi'u hanelu at rieni a gofalwyr, plant a phobl ifanc. Mae'r rhai a luniwyd gan glystyrau o ysgolion, neu'n rhanbarthol, yn helpu sicrhau neges gyson ar draws rhanbarthau.

Yn ogystal â darparu gwybodaeth ysgrifenedig, mae awdurdodau lleol wedi darparu diweddariadau defnyddiol iawn ar ddiwygio ADY mewn fforymau rhieni / gofalwyr a digwyddiadau gwybodaeth teilwredig. Ar adegau, mae'r digwyddiadau hyn wedi cael eu hwyluso ar y cyd â sefydliadau'r trydydd sector sydd â chysylltiadau cryf â theuluoedd a chanddynt blant ag anghenion ychwanegol.

Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r wybodaeth a ddarperir fel rheol yn cynnwys arweiniad ar gyfer rhieni plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref neu'r rhai mewn lleoliadau annibynnol. Yn ychwanegol, mae gwybodaeth am ffrindiau ac eiriolwyr achos yn llai amlwg.

Mae'r awdurdodau lleol hynny sydd â swyddogion dynodedig sy'n darparu cyngor, cymorth ac arweiniad gwerthfawr i rieni, yn darparu cyswllt effeithiol rhwng teuluoedd ac ysgolion. Yn ychwanegol, mae'r CydADY wedi cynorthwyo rhieni hefyd i ddeall y newidiadau a ysgogwyd gan ddiwygio ADY.

At ei gilydd, mae prif bryderon rhieni yn ymwneud â deall y system newydd yn gyffredinol, ac yn fwy penodol, sicrhau bod anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae termau fel cyffredinol, targedig, a darpariaeth ychwanegol yn cael eu defnyddio'n gynyddol gan awdurdodau lleol ac ysgolion. Nid yw rhieni o reidrwydd yn gyfarwydd â'r termau hyn ac mae angen eu sicrhau bod y ddarpariaeth a drefnir yn ddigonol ac yn addas i ddiwallu anghenion eu plentyn. Yn ychwanegol, dywed sefydliadau'r trydydd sector fod lleiafrif o deuluoedd yn cael eu cynghori'n anghywir nad yw'r system ADY yn berthnasol i'w plentyn.

Yn ystod yr wythnos yn dechrau 20 Mawrth 2023, edrychom ar wefannau'r 29 darparwr, i werthuso defnyddioldeb a hygyrchedd y wybodaeth a ddarparwyd. Cyfeiriwch at yr adran Dulliau a Sail y Dystiolaeth i weld rhestr o'r meini prawf a gymhwyswyd yn ystod yr adolygiad o'r wefan.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd awdurdodau lleol yn y sampl yn annog ysgolion yn gryf i gynnwys gwybodaeth wedi'i diweddaru am ADY ar eu gwefannau. Fodd bynnag, roedd ansawdd a hygyrchedd y wybodaeth ar wefannau Cynghorau ac ysgolion ledled Cymru yn rhy amrywiol. Roedd darparu gwybodaeth o ran ffrindiau achos, gwasanaethau eirioli a datrys anghydfod yn wan, ar y cyfan. O ganlyniad, efallai nad yw rhieni mor ymwybodol o'u hawliau ag y dylent fod.

### Adolygu gwefannau awdurdodau lleol

Roedd bron pob un o'r awdurdodau lleol yn y sampl yn cynnwys y diffiniad o ADY, roedd y mwyafrif ohonynt yn cynnwys y diffiniad o DDdY ar eu gwefannau, a thua hanner ohonynt yn darparu dolen at hafan ADY Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn fwy cyfoes na'r wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol ac ysgolion.

Darparodd y mwyafrif o awdurdodau lleol amserlen glir ar gyfer gweithredu ADY, ac roeddent hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ba grwpiau o ddisgyblion fydd yn trosglwyddo o'r system AAA i'r system ADY.

Nid oedd unrhyw wefan awdurdod lleol yn y sampl a ystyriwyd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â phryd y bydd CDUau yn cael eu paratoi a'u cynnal gan yr awdurdod lleol, a'r

rhai fydd yn cael eu paratoi a'u cynnal gan ysgolion. Lleiafrif yn unig o awdurdodau lleol a oedd yn cyfeirio at ddarpariaeth ddysgu gyffredinol yn glir.

Darparodd y mwyafrif o awdurdodau lleol wybodaeth am hawliau rhieni a disgyblion i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniadau, ac roedd llawer ohonynt yn cynnwys gwybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau eirioli annibynnol. Yn ychwanegol, roedd llawer ohonynt yn cynnwys gwybodaeth am Dribiwnlys Addysg Cymru a sut i gael mynediad ato.

Mae gan bob awdurdod lleol wefannau dwyieithog, ac mewn lleiafrif o achosion, mae gan y rhain swyddogaeth ychwanegol, sy'n caniatáu mynediad at ystod o ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg.

### Adolygu gwefannau ysgolion

At ei gilydd, nid o oedd gwefannau ysgolion yn darparu gwybodaeth ddigonol am ddiwygio ADY na beth mae hyn yn ei olygu i rieni a disgyblion yn yr ysgol honno. Roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan ysgolion cynradd yn y sampl fymryn yn well na gwybodaeth a ddarparwyd gan ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed.

Cyfeiriodd lleiafrif o ysgolion cynradd ond dim ysgolion uwchradd nac ysgolion pob oed at ddiwygio ADY ar eu tudalen hafan. Ar gyfartaledd, roedd angen clicio llai o weithiau i weld y dudalen gywir ar wefan ysgolion uwchradd.

Nid oedd llawer o ysgolion yn rhoi diffiniad o ADY ar eu gwefannau, ac nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn rhoi diffiniad o DDdY. O ganlyniad, efallai na fydd rhieni mor glir ag y dylent fod am yr angen i nodi bod gofyn cael DDdY ar gyfer eu plentyn i adnabod bod ganddo ADY.

Ychydig iawn o ysgolion oedd yn darparu gwybodaeth glir am yr hyn y maent yn ei hystyried yn ddarpariaeth gyffredinol, darpariaeth dargedig, neu ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

At ei gilydd, nid oedd ysgolion yn rhoi diweddariad ar ba grwpiau blwyddyn fydd yn symud drosodd i'r system ADY, ac nid oeddent yn rhoi gwybod i rieni chwaith am eu hawl i ofyn bod eu plentyn yn cael ei symud i'r system ADY y tu allan i'r grwpiau blwyddyn gorfodol.

Roedd ychydig o ysgolion uwchradd yn y sampl yn darparu dolenni at gymorth ac arweiniad ychwanegol a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru.

Roedd lleiafrif o ysgolion a adolygwyd yn darparu gwybodaeth i rieni trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a lleiafrif ohonynt yn darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill.

Roedd lleiafrif o ysgolion cynradd yn darparu gwybodaeth i rieni am sut i ofyn am gyngor ac eirioli annibynnol, gan gynnwys gwybodaeth am rôl Tribiwnlys Addysg Cymru. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion cynradd yn unig oedd yn darparu gwybodaeth am hawliau rhieni a phlant i herio penderfyniadau am ADY a DDdY. Nid oedd gwefannau ysgolion uwchradd yn y sampl yn darparu gwybodaeth o'r fath.

Ychydig o ysgolion yn unig a adolygwyd oedd yn darparu gwybodaeth am ddiwygio ADY sy'n benodol i gyd-destun eu hysgol. Mewn achosion o'r fath, roedd hyn fel arfer yn ymwneud â darparu arbenigwr awdurdod lleol, ond nid darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn fwy cyffredinol.

Lleiafrif o ysgolion yn unig a oedd yn enwi unigolyn i rieni gysylltu ag ef pe baent yn dymuno gwneud hynny.

### Delio ag anghydfod

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i:

> wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau rhwng (a) cyrff addysg, a (b) plant neu bobl ifanc y mae'r awdurdod yn gyfrifol amdanynt, neu yn achos plant o'r fath, eu rhieni (Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) A.68 (1).

At ei gilydd, dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ac ysgolion a gymerodd ran y bu her yn isel, oherwydd perthnasoedd gweithio cryfach â rhieni. Mae swyddogion ar gael gan awdurdodau lleol i gynorthwyo a chynghori ysgolion a rhieni, fel ei gilydd. Yn gyffredinol, o ganlyniad i'r gwaith sensitif rhwng CydADY yr ysgol a rhieni, yn enwedig lle ystyrir nad oes gan ddisgyblion ADY lle byddent wedi bod ag AAA yn y gorffennol, mae rhieni wedi cael eu sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion y disgybl. Bu eithriad i hyn yn gysylltiedig â her gan rieni ynglŷn â'r diffyg eglurder am drefniadau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn y dyfodol.

Nid yw ychydig iawn o ysgolion wedi gweld bod eu hawdurdodau lleol yn gefnogol iawn. Ar adegau o'r fath, maent yn troi at ysgolion eraill am arweiniad wrth ddelio â her neu anghydfod.

**Osgoi a datrys anghytundebau ar gyfer plant a phobl ifanc yn rhanbarth Canol De Cymru**

Mae llawlyfr wedi'i anelu at ymarferwyr addysgol sy'n gweithio gyda phlant, eu rhieni a'u gofalwyr a phobl ifanc sydd ag ADY wedi cael ei ddatblygu gan yr awdurdodau yn rhanbarth Canol De Cymru.

Mae'r ddogfen yn amlinellu'r sylfaen ddeddfwriaethol ac yn rhoi cynghorion buddiol, er enghraifft, ar ymgysylltu â rhieni a'u cynorthwyo i gymryd rhan, pwysigrwydd gwrando ac ystyried safbwyntiau rhieni, yr angen am brotocolau neu weithdrefnau clir, ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Fel y nodwyd yn yr adrannau blaenorol, roedd y graddau y mae gwefannau awdurdodau lleol ac ysgolion yn darparu gwybodaeth am gyngor ac eirioli annibynnol, gan gynnwys gwybodaeth am rôl Tribiwnlys Addysg Cymru, yn rhy amrywiol. Mae gwefan Tribiwnlys Addysg Cymru wedi cael ei diweddaru ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol iawn am ei rôl a'r gweithdrefnau sydd angen eu dilyn. Yn ychwanegol, mae'n darparu fersiynau o ddogfennau sy'n hawdd eu darllen ac yn addas ar gyfer plant. Nid yw penderfyniadau'r Tribiwnlys o ran ADY ar gael ar y wefan. Mae hyn yn cyfyngu ar allu awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i ddysgu o benderfyniadau.

Mewn cyfarfod diweddar o'r rŵp llywio ADY cenedlaethol, trosglwyddodd llywydd y Tribiwnlys neges glir iawn. Bydd y Tribiwnlys yn asesu cymhwyso'r gyfraith ac nid dehongliad awdurdod lleol, ac mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol yn y pen draw, ac na allant ddirprwyo eu cyfrifoldebau'n llawn.

Mae'n ddiddorol nodi bod adroddiad blynyddol Tribiwnlys Addysg Cymru hefyd yn dangos bod cyfanswm nifer yr apeliadau a dderbyniwyd gan awdurdodau wedi gostwng o 139 i 90 (2020-2022) (2022, tud.10) a bod y mwyafrif (60%) o apeliadau yn 2021-22 naill ai wedi cael eu caniatáu gan awdurdodau lleol (28%) neu'u tynnu'n ôl gan yr apelydd (31%) (2022, tud.21). Mae hyn yn awgrymu bod llawer o waith i'w wneud o hyd rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a rhieni i ddelio ag anghydfod yn gynharach.

## Gweithio gydag eraill

Un o uchelgeisiau'r Ddeddf, ac fel y cofnodwyd yn Rhaglen trawsnewid system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Llywodraeth Cymru yw:

> cydweithio a rhannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau, sy'n hanfodol i sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar, a bod y cymorth cywir yn cael ei roi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni deilliannau cadarnhaol (Llywodraeth Cymru, 2020, tud.3)

At ei gilydd, mae cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn rhy amrywiol.

Roedd llawer o ysgolion yn y sampl yn gadarnhaol am y cydweithio sy'n bodoli rhyngddyn nhw eu hunain a'u hawdurdodau lleol. Fodd bynnag, roedd gan leiafrif o ysgolion farn sy'n llai canmoliaethus ynglŷn â chyfraniad gwasanaethau seicoleg addysg wrth gefnogi'r agenda diwygio ADY. Dywedodd ychydig o awdurdodau lleol hefyd fod angen addasu eu gwasanaethau i adlewyrchu uchelgeisiau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn well, yn enwedig o ran darparu gwasanaethau ar gyfer plant cyn-ysgol a phobl ifanc ar ôl-16, ac anghenion newidiol disgyblion o fewn ysgolion.

Roedd yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan ysgolion arbennig. Pan fydd trefniadau o'r fath yn bodoli, caiff cydweithwyr prif ffrwd eu cynorthwyo'n dda i ddatblygu eu dealltwriaeth o anghenion dysgu ychwanegol, ac felly meithrin eu gallu a'u galluogrwydd.

Dywedodd awdurdodau lleol ac ysgolion cynradd a gymerodd ran wrthym fod cydweithio gwell erbyn hyn rhwng yr awdurdod lleol a darparwyr y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys ysgolion cynradd a rhaglenni cymorth fel Dechrau'n Deg. Mae rôl swyddog anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar wedi bod yn allweddol i'r datblygiadau hyn. Rydym yn bwriadu ystyried y rôl hon a'i heffaith ym mlwyddyn dau yr adolygiad hwn.

Roedd gallu gwasanaethau iechyd i ddarparu gwybodaeth a chyngor mewn modd digon amserol, ac o fewn cyfnodau statudol, yn destun pryder. Hefyd, mae'r ymrwymiad a wna cydweithwyr iechyd i DDdY a'r hyn y mae DDdY yn ei olygu, yn destun pryder parhaus. At ei gilydd, mae ansicrwydd parhaus am y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau iechyd, yr ystyrir eu bod yn DDdY.

Mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn y sampl yn parhau i nodi bod manteisio ar gymorth gan wasanaethau lleferydd ac iaith, timau niwroddatblygiadol a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, yn parhau i fod yn her ddybryd iawn. Mae'r rhain yn barhaus ac nid ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig â chyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg.

Mae cyflwyno'r swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig wedi cael ei groesawu'n fawr gan awdurdodau lleol. Roedd swyddogion awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi'r un man cyswllt. Fodd bynnag, mae'n aneglur o hyd faint y bydd y rôl hon yn helpu i gael gwared ar rai o'r rhwystrau a nodwyd o ran defnyddio gwasanaethau iechyd ar gyfer diagnosis a chymorth. At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o ysgolion yr ymgysylltwyd â nhw yn aneglur ynglŷn â'r rôl ac nid oeddent yn gallu cynnig sylwadau ar ei manteision, na sut mae wedi effeithio ar ddisgyblion yn eu lleoliad.

Yn ein crynodeb gweithredol, nodom fod gweithredu diwygio ADY a diwygio'r cwricwlwm yn ystod cyfnod o her ddigynsail a sylweddol wedi bod yn dasg anodd ac uchelgeisiol i bawb dan sylw, a'n bod yn cydnabod yn llawn fod symud o un system i un arall yn cymryd amser.

Yn ei gohebiaeth â ni, ac yn benodol o ran iechyd, mae cydweithwyr iechyd Llywodraeth Cymru yn awyddus i amlygu:

> mae gennym y swyddi a'r mecanweithiau ar waith i nodi, rhagweld a datrys problemau wrth i ni fynd yn ein blaenau, gydag ymwybyddiaeth glir o'r plentyn a'r person ifanc yn ganolog i'r broses…hanfod system newydd yw bod yn rhaid iddi gael amser i wreiddio...

Byddwn yn ystyried rôl y DECLO mewn gwaith yn y dyfodol.

Mae gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol rôl hanfodol i'w chwarae mewn cefnogi anghenion plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, nid yw'n glir fod gan gydweithwyr mewn gwasanaethau plant ddealltwriaeth ddigon cadarn o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, ac yn fwy penodol, y ddarpariaeth mae ysgolion yn ei threfnu a ph'un a yw'n DDdY ai peidio.

Yn ei hadroddiad yn 2021, amlygodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yr angen i wahanol weithwyr proffesiynol a sefydliadau weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth â theuluoedd i sicrhau bod plant yn gallu manteisio ar y cymorth cywir, a derbyn y cymorth cywir, ar yr adeg gywir (tud.4). Amlygodd arfer effeithiol ledled Cymru, gan gynnwys manteision disgyblaethau proffesiynol gweithio gyda'i gilydd. Yn Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, mae seicolegydd addysg yn rhan o'r tîm anabledd 0-25 (tud.33).

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Un o'r egwyddorion sy'n ategu'r system ADY yw datblygu system ddwyieithog, un lle caiff pob cam rhesymol ei gymryd i gyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chwmpas ar gyfer cynyddu cyflwyno yn Gymraeg dros gyfnod (Llywodraeth Cymru, 2021e, tud.37).

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried 'digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg' trwy eu dyletswydd i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn gyson. (Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) A.63).

Yn eu hadroddiad ar y cyd, Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol, nododd Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 'ar hyn o bryd, nid yw'r gyfundrefn ADY yng Nghymru yn adlewyrchu anghenion gwlad ddwyieithog' (2023, tud.3). Rhoesant ddadansoddiad cynhwysfawr o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) awdurdodau lleol.

Dywedon nhw:

> ar y cyfan, prin iawn yw'r enghreifftiau lle mae'r CSCAau yn cynnig trosolwg manwl ac eglur o ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg…mae nifer helaeth o awdurdodau lleol yn barod i gyfaddef nad oes ganddynt ddealltwriaeth lawn o'r angen am ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg, ac felly, ni allant bennu a yw'r rhain yn cael eu bodloni (Comisiynydd Plant Cymru; Comisiynydd y Gymraeg, 2023, tud.3)

Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddatgan:

> mae nifer helaeth o awdurdodau lleol yn cydnabod nad yw darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn cwrdd ag anghenion dysgwyr… naill ai mae disgyblion cyfrwng Cymraeg yn gorfod derbyn cefnogaeth drwy gyfrwng y Saesneg, yn methu â chael y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt, neu mae'r dysgwyr sydd ag ADY mwy cymhleth yn dewis addysg cyfrwng Saesneg o'r cychwyn gan eu bod eisoes yn ymwybodol o ddiffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg. (2023, tud.3)

Yn raddol iawn, mae awdurdodau lleol yn gwella darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Cyflawnir hyn yn bennaf trwy sefydlu dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol mewn ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg.

O'r 15 cynnig ad-drefnu ysgolion a dderbyniwyd gennym (rhwng Medi 2022 a Mehefin 2023), mae dau awdurdod lleol yn bwriadu cynyddu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd un awdurdod yn sefydlu dau ddosbarth arbenigol awdurdod lleol sector cynradd ar gyfer disgyblion ag ADY "sylweddol". Mae'r llall yn ceisio sefydlu dosbarth arbenigol awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth.

**Datblygu adnoddau Cymraeg**

Yn ein harolygiad diweddar o wasanaethau addysg llywodraeth leol yng Ngwynedd, cydnabuom ymdrechion yr awdurdod lleol i ddatblygu adnoddau Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY a'u teuluoedd.

Mae'r pedwar paragraff canlynol yn cyd-fynd yn gryf â chanfyddiadau Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

Dywedodd awdurdodau lleol fod recriwtio staff â'r medrau arbenigol perthnasol a sicrhau cymorth gan gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg mewn asiantaethau a gwasanaethau

eraill, er enghraifft gweithwyr proffesiynol ym maes iaith a chwarae neu berthynol i iechyd, yn her barhaus.

Roedd y graddau y gall awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau arbenigol ADY trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywiol, ar y cyfan, ond yn gyffredinol yn llai o broblem mewn awdurdodau lle defnyddir y Gymraeg fel yr iaith amlycaf. Pan mae awdurdodau lleol wedi defnyddio cyllid grant i gynorthwyo cydweithwyr o leoliadau cyfrwng Cymraeg, i gefnogi gweithredu'r Ddeddf, mae cynaliadwyedd y rolau hyn yn aneglur. Mae hyn yn tanseilio gallu awdurdodau lleol a phartneriaid, gan gynnwys ysgolion, i fodloni gofynion y Ddeddf yn ddigonol.

Roedd dysgu proffesiynol a hyfforddiant ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol, arbenigwyr dan hyfforddiant a staff ysgolion yn digwydd trwy gyfrwng y Saesneg, yn bennaf.

Yn gyffredinol, roedd deunyddiau asesu ac ymyriadau yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Saesneg, hyd yn oed ar gyfer disgyblion sy'n mynychu lleoliadau Cymraeg neu ddwyieithog. Nid oedd yn anghyffredin i'r ysgolion hyn gyfieithu deunyddiau i'w defnyddio gyda disgyblion. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried materion yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhan o adolygiad pum mlynedd.

Mae adroddiad y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd y Gymraeg yn rhoi gwybod hefyd am 'nifer o enghreifftiau o arfer dda' (2023, tud.3). Mae'r rhain, er enghraifft, yn cynnwys cynlluniau ar gyfer datblygiad proffesiynol staff i uwchsgilio'r gweithlu yn y sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, fel ei gilydd. Yn ychwanegol, mae rhai awdurdodau lleol yn cydweithio ar sail ranbarthol i gefnogi anghenion disgyblion ag ADY trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, 'mae'r enghreifftiau hyn yn gyfyngedig' (2023, tud.3)

# Cyllid ac adnoddau

## Trosolwg o'r bennod

Yn y bennod hon, rydym yn ystyried y cyllid ac adnoddau a neilltuwyd i ADY dros sawl blwyddyn, ac yn fwy penodol, cyllid ar ôl y pandemig i gefnogi cyflwyno diwygio ADY. Yn gyffredinol, nid oedd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion ddealltwriaeth ddigon clir o benderfyniadau am ariannu ADY yn eu hawdurdod, na sut mae awdurdodau lleol wedi defnyddio grantiau ADY Llywodraeth Cymru. Roedd arweinwyr ysgolion yn glir fod diwygio ADY wedi arwain at gostau ychwanegol i'w hysgol.

## Ariannu ADY

| Gwariant wedi'i gyllidebu gan awdurdodau lleol ar AAA | | | | | Grant Arloesi ADY LIC | Grant Trawsnewid ADY LIC | Cyllid LIC Ar Ôl y Pandemig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| £m | | | | | | | |
| 2018-2019 | 2019-2020 | 2020-2021 | 2021-2022 | 2022-2023 | 2016/17-2017/18 | 2018-2020 | 2021-2023 |
| 381 | 408 | 433 | 457 | 494 | 2.1 | 20 | 77 |

*Ffynonellau: Gwariant sydd wedi'i Gyllidebu Llywodraeth Cymru ar AAA (Llywodraeth Cymru 2018c, 2019a, 2021b, 2022c); Grant Trawsnewid ADY LIC (Llywodraeth Cymru 2017b); Cyllid Ar Ôl y Pandemig (Llywodraeth Cymru 2021 f, 2022 d, e, g, h, - fel y rhestrir yn yr adran isod ar gyllid)*

Mae gwariant awdurdodau lleol ar anghenion addysgol arbennig wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn er 2015, ac mae'n £494 miliwn ar hyn o bryd. Mae hyn gyfystyr â 30% o gynnydd er 2018-2019 ac yn gynnydd o £36.6 miliwn ar y flwyddyn flaenorol (2021-2022). Mae'r cynnydd canran mewn cyllid yn amrywio o 2.7% yn Ynys Môn i 15.2% yn Sir y Fflint (Llywodraeth Cymru (2022c).

Caiff tua 70% o gyfanswm y gwariant wedi'i gyllidebu ei ddirprwyo i ysgolion, ac fe gaiff y gweddill ei ddal yn ganolog gan awdurdodau lleol. Caiff ychydig llai na phumed rhan o'r gwariant ei dirprwyo i ysgolion uwchradd, ychydig llai na chwarter i ysgolion cynradd, ac ychydig dros chwarter ei ddirprwyo i ysgolion arbennig.

## Cyllid ac adnoddau

Mae costau gweithredu'r system ADY newydd a chymariaethau â'r system AAA wedi bod yn gymhleth, yn heriol ac wedi cael eu herio gan grwpiau fel Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC). Cydnabu Llywodraeth Cymru, yn ei Memorandwm Esboniadol i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2017, tud.134) y dylid ystyried costau a nodwyd yn ei hasesiad o effaith rheoleiddio fel 'amcangyfrifon gorau'. Roedd mecanweithiau cyllid cymhleth, gan gynnwys diffyg gwybodaeth wedi'i dadgyfuno, yn golygu nad oedd yn bosibl asesu costau a buddion gweithredu'r system ADY yn llawn (Llywodraeth Cymru, 2017), tud.181).

At ei gilydd, adroddodd ysgolion sampl fod cadw staff cymorth o safon uchel yn dod yn gynyddol anodd, yn enwedig gan fod telerau ac amodau cyflogaeth yn fwy ffafriol mewn sectorau cyflogaeth eraill. Dywed ysgolion hefyd fod recriwtio staff cymorth yn fwy heriol. Mae'r sefyllfa hon yn creu pwysau a baich gwaith ychwanegol ar gyfer Cydlynwyr ADY a'u staff cymorth.

### Ailalinio gwasanaethau a meithrin capasiti

Fel rhan o'u paratoadau ar gyfer gweithredu diwygio ADY, cymerwyd camau priodol gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a gymerodd ran i feithrin capasiti ac ailalinio gwasanaethau yn eu timau. Er enghraifft, mae gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar yn cyd-fynd yn agosach â gwaith gwasanaethau addysg, ar y cyfan, ac mewn rhai awdurdodau, mae rheolwyr llinell y blynyddoedd cynnar o fewn addysg erbyn hyn. Yn ychwanegol, mae awdurdodau lleol wedi sicrhau staff ychwanegol i'w galluogi i gynnal y system AAA bresennol a chynllunio ar gyfer cyflwyno'r system ADY. Mae cynaliadwyedd swyddi, yn enwedig y rhai a ariennir gan grantiau, yn aneglur.

Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a gymerodd ran fod cyflwyno'r diwygiadau ADY yn risg gorfforaethol, ac wedi cymryd camau priodol, gan gynnwys sicrhau cyllid ychwanegol gan eu cynghorau, i liniaru yn erbyn y risgiau hyn.

### Tryloywder ac amseroldeb cyllid

At ei gilydd, fodd bynnag, mae diffyg tryloywder yng nghyllid ADY. Dywedodd bron pob un o'r arweinwyr ysgolion yn y sampl eu bod yn aneglur ynglŷn â sut mae awdurdodau lleol yn pennu cyllidebau ar gyfer ADY. Nid oedd arweinwyr ysgolion yn deall goblygiadau newidiadau i'r gofrestr ADY i'w cyllidebau yn llawn, ac mae hyn yn effeithio ar eu gallu i gynllunio mor effeithiol ag y maent yn dymuno. Ledled Cymru, nid yw awdurdodau lleol yn cyfleu'r rhesymeg y tu ôl i fformiwlâu cyllid ADY yn ddigon clir fel bod penaethiaid a staff eraill ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth gyson o sut caiff eu cyllid ADY ei bennu i gefnogi cynllunio yn y dyfodol.

Mae ein canfyddiadau ar gyllid yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r rhai a welwyd yn arolwg NAEL (2023) lle nad oedd ychydig llai na dau o bob tri o arweinwyr ysgolion yn deall y fformiwla gyllido a ddefnyddir gan eu hawdurdod lleol (tud. 31). Mae cyfran debyg (68%) o arweinwyr ysgolion a oedd yn meddwl nad oedd ganddynt y cyllid angenrheidiol i gyflawni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (tud. 31).

Yn ychwanegol, roedd telerau ac amodau a dosbarthu grantiau Llywodraeth Cymru i gefnogi trawsnewid ADY, ac yn fwy diweddar, gweithredu ADY, hefyd yn aneglur i arweinwyr ysgolion.

Mae amseroldeb awdurdodau lleol o ran cadarnhau cyllidebau ysgolion a chyhoeddiadau cenedlaethol am gyllid grant ychwanegol yn broblemus, hefyd. Yn gyffredinol, mae cyllid grant ychwanegol yn cyrraedd yn rhy hwyr ac yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar awdurdodau lleol ac ysgolion i wario o fewn graddfeydd amser penodol. Yn ychwanegol, nid yw cyllid grant tymor byr yn galluogi awdurdodau lleol neu ysgolion i gynllunio'n strategol gan nad oes sicrwydd y byddant yn cael y cyllid yn y dyfodol. Mae hyn yn creu ansicrwydd sylweddol.

Dywedodd pob awdurdod lleol a bron pob ysgol yn yr adroddiad sampl y bu costau ychwanegol sylweddol mewn gweithredu diwygio ADY, sy'n fwy na'r cyllid grant ychwanegol y maent wedi'i dderbyn. Mae hyn yn cynnwys penodi staff ac ymestyn darpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion.

## Cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi diwygio ADY

Cronfa Arloesi – Yn 2016, sefydlodd Llywodraeth Cymru Gronfa Arloesi ADY dwy flynedd, gwerth £2.1m. Cynorthwyodd y gronfa ddatblygiad prosiectau amlasiantaethol a oedd yn canolbwyntio ar ystod eang o weithgarwch, gan gynnwys nodi anghenion yn gynnar, cynllunio pontio, monitro, cefnogi ymyriadau, capasiti cydlynwyr anghenion addysgol arbennig / anghenion dysgu ychwanegol, a chapasiti darpariaeth ôl-16 ar gyfer dysgwyr ag anawsterau ac/neu anableddau dysgu. Daeth y cyllid i ben ym mis Mawrth 2018 a chynhaliwyd digwyddiad dysgu lle cyflwynodd ymarferwyr eu prosiectau, rhannu eu dysgu, ac ehangu eu dealltwriaeth o wahanol ffyrdd o weithio. Dangoswyd datblygiadau fel gwaith ar gydweithio rhanbarthol, datrys anghydfodau, a gweithio mewn clystyrau ADY yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld crynodeb o'r prosiectau yn Atodiad 1.

Y Gronfa Trawsnewid – Ar ôl cwblhau'r prosiectau arloesi a ariannwyd gan y gronfa, ac mewn theori, adeiladu ar lwyddiannau dynodedig y prosiectau arloesi ADY, neilltuodd Llywodraeth Cymru £20m i gefnogi awdurdodau lleol, iechyd, addysg bellach ac ysgolion i baratoi ar gyfer diwygio ADY. Penodwyd arweinwyr trawsnewid i ddarparu cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol, colegau addysg bellach a phartneriaid eraill wrth baratoi ar gyfer, a rheoli pontio i'r system ADY newydd. Datblygwyd cynlluniau gweithredu rhanbarthol gyda phartneriaid. Canolbwyntiodd y cynlluniau hyn ar y camau oedd angen eu cymryd i baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf, ac fe'u cefnogwyd gan grantiau trawsnewid ADY. Yn ychwanegol, defnyddiodd partneriaid asesiadau parodrwydd i werthuso'r graddau yr oeddent yn cynllunio ar gyfer y newid i'r system ADY. Ariannwyd rhai o'r arferion effeithiol a nodwyd yn yr adroddiad hwn, er enghraifft Cydlynwyr ADY clwstwr, hyrwyddwyr arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn / CDU a chyfleoedd dysgu proffesiynol, trwy'r grant trawsnewid ADY (Llywodraeth Cymru 2017b).

## Cyllid ar ôl y pandemig

Ers y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £77 miliwn yn ychwanegol i gefnogi gweithredu ADY.

Mae'r cyllid ychwanegol wedi cael ei groesawu, ar y cyfan, gan awdurdodau lleol ac ysgolion. Fodd bynnag, mae'n ansicr a fydd cyllid o'r fath yn cael ei warantu yn y dyfodol. Mae cynaliadwyedd y cyllid yn hollbwysig, yn enwedig o ystyried bod ysgolion yn wynebu diffyg mewn cyllid yn y flwyddyn i ddod, gan roi darpariaeth mewn perygl, o bosibl.

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y byddai'r cyfnod gweithredu yn cael ei ymestyn flwyddyn, ac yn dod i ben ym mis Awst 2025. Cafwyd chwistrelliad o £24m ychwanegol i gyd-fynd â'r cyhoeddiad hwn, dros y ddwy flynedd 2023-2025. Yn ychwanegol, byddai £1m yn cael ei ad-dalu i ysgolion arbennig (Llywodraeth Cymru 2023d).

Ym mis Chwefror 2021, neilltuodd Llywodraeth Cymru £9.8m i gynorthwyo dysgwyr ag ADY. Roedd y cyllid er mwyn galluogi awdurdodau lleol i glirio ôl-groniadau ar gyfer

asesiadau a chefnogi costau gweithredu dysgu cyfunol, gan gynnwys cymorth un i un a chostau meddalwedd arbenigol (Llywodraeth Cymru 2021f).

Ym mis Ionawr 2022, trefnwyd bod £10m ar gael i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY a oedd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig. Cydnabu Llywodraeth Cymru yr effaith negyddol a gafodd y pandemig ar iechyd meddwl dysgwyr, ac mewn rhai achosion, eu gallu i fanteisio ar addysg a chymorth arall. Galluogodd y cyllid awdurdodau lleol ac ysgolion i ddarparu adnoddau ychwanegol a chymorth teilwredig. Dyrannwyd £8m ychwanegol i gefnogi meithrinfeydd, awdurdodau lleol, ac unedau cyfeirio disgyblion, wrth i blant a phobl ifanc symud o'r system anghenion addysgol arbennig i'r system ADY (Llywodraeth Cymru 2022g).

Ym mis Mawrth 2022, dyrannwyd £4m yn uniongyrchol i ysgolion arbennig ac unedau arbenigol i helpu darparu cymorth ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Dyfarnwyd £0.5m arall i Plant yng Nghymru. Dosbarthwyd y cyllid hwn i sefydliadau'r trydydd sector i'w helpu i hyrwyddo'r system ADY newydd a'i buddion i blant, rhieni a gofalwyr a phobl ifanc (Llywodraeth Cymru 2022d).

Ym mis Hydref 2022, dyrannwyd £20m i awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion prif ffrwd neu ysgolion arbennig, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion i 'wella, neu greu gofodau a chyfleusterau dysgu cynhwysol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol'. Cefnogwyd y cyhoeddiad gan enghreifftiau o ysgolion, ledled Cymru, oedd wedi addasu eu darpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn well (Llywodraeth Cymru 2022h).

Mae pwysau parhaus o ran cyllid o fewn y GIG yn golygu bod pwysau'n parhau ar wasanaethau. Trwy'r gwaith hwn, rydym yn nodi â phryder y cydweithio gwael rhwng darpariaethau ADY a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Nid yw'n glir p'un a roddir digon o bwys a blaenoriaeth i wasanaethau allweddol y GIG, fel CAMHS, sy'n gallu cael effaith gadarnhaol ar ba mor dda y gall disgyblion ag ADY gael mynediad at addysg. Mae gan y diffyg cydlynu rhwng addysg a CAMHS y potensial i arwain at beryglu'r cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sydd angen cymorth iechyd meddwl hefyd, gan arwain o bosibl at ganlyniadau negyddol. Gallai potensial colli swyddi arwain at ostyngiad mewn cyfraddau presenoldeb a chyfraddau gwaharddiadau uwch, sy'n gwrth-ddweud blaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cynwysoldeb a lleihau gwahaniaethau addysgol. Hefyd, mae ein hadroddiad yn 2023, "Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol" yn datgelu cynnydd pryderus yn nifer y disgyblion mewn UCDau ers y pandemig. Mae'r disgyblion hyn bellach yn llai tebygol o ddychwelyd i addysg brif ffrwd, gan greu achos o ddargyfeirio adnoddau yn annisgwyl i ffwrdd o gynllunio addysg brif ffrwd. Mae'r sefyllfa hon yn creu heriau ar gyfer dyrannu adnoddau ac efallai bod angen gwneud addasiadau i fodloni'r gofynion cynyddol a osodir ar y system addysg. At ei gilydd, mae'r materion yn amlygu bod angen mwy o gydlynu, cymorth a chynllunio o fewn y sectorau addysg ac iechyd meddwl i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion bregus yn effeithiol, a chynnal amgylchedd addysgol cytbwys a chynhwysol.

At ei gilydd, mae dulliau i werthuso'r effaith y mae cyllid, yn enwedig cyllid ar ôl y pandemig, wedi'i chael gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar gefnogi gweithredu diwygio ADY yn amrywiol ond yn wan.

# Datblygiad proffesiynol

## Trosolwg o'r bennod

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r deunyddiau amrywiol a grëwyd i gynorthwyo dealltwriaeth ymarferwyr a rhieni o ddiwygio ADY. At ei gilydd, mae'r graddau y rhannwyd deunyddiau gan awdurdodau lleol ac ysgolion yn rhyw amrywiol. Nodwn fod ysgolion yn gallu manteisio ar raglenni hyfforddiant cynhwysfawr, gan gynnwys cymorth ac arweiniad gan ysgolion arbennig, lle mae trefniadau o'r fath yn bodoli. Ar sail trafodaeth â Chydlynwyr ADY a gafodd eu cynnwys yn yr adroddiad thematig hwn, nodom fod rhai ohonynt wedi cwblhau cymwysterau ôl-raddedig mewn AAA/ADY, gan gynnwys cymwysterau arbenigol eraill. Defnyddion nhw eu gwybodaeth a'u medrau yn effeithiol yn eu hysgolion. Rydym yn amlygu cyflwyno rhaglen MA Addysg (Cymru). Mae llawer o'r ffocws diweddar ar ddatblygiad proffesiynol wedi bod yn gysylltiedig â chefnogi'r ddealltwriaeth o newidiadau i'r system ADY. Mae cefnogi datblygiad proffesiynol holl staff ysgolion, mewn addysg a diwallu anghenion disgyblion ag ADY, yn llai datblygedig.

## Datblygu'r gweithlu a chodi ymwybyddiaeth

Fel y nodwyd yn adran cefndir yr adroddiad hwn, cefnogwyd trawsnewid ADY gan bum thema eang. Mae'r adran hon yn defnyddio agweddau sy'n ymwneud â thema dau: datblygu'r gweithlu, a thema pedwar: codi ymwybyddiaeth.

Lluniodd Llywodraeth Cymru ddeunyddiau e-ddysgu addysgiadol iawn. Roedd y rhain wedi'u hanelu'n bennaf at weithio gyda phlant neu bobl ifanc ond roeddent yr un mor hygyrch i bartïon eraill â buddiant. Rhoddodd y deunyddiau drosolwg clir o ddiwygio ADY ac roeddent yn cynnwys cyfres o fodiwlau rhyngweithiol a oedd yn cynnwys fideos, cwisiau ac ymarferion.

Mae'r graddau y cafodd y deunyddiau hyn eu defnyddio a'u rhannu gan awdurdodau lleol ac ysgolion yn rhy amrywiol. O ganlyniad, nid yw gweithwyr proffesiynol a rhieni mor ymwybodol ag y gallent fod o resymeg a goblygiadau diwygio ADY.

Yn ychwanegol, mae'r rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol ar-lein wedi'i hanelu at Gydlynwyr ADY a darpar Gydlynwyr ADY yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr a defnyddiol iawn am ystod eang o themâu perthnasol, gan gynnwys arweinyddiaeth, arferion wedi'u llywio gan dystiolaeth ac adnoddau a allai fod o ddefnydd i'r CydADY. Mae'r rhaglen wedi'i threfnu yn ôl tair lefel, sef; craidd, canolraddol ac uwch. Mae'r deunyddiau, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, mis Medi 2022 a mis Ebrill 2023, wedi cael eu gweld 8928, 1000 ac 800 o weithiau, yn y drefn honno.

**Sicrhau bod cydweithwyr yn manteisio ar ddeunyddiau hyfforddi**

Yn Ysgol Gyfun Gorllewin Mynwy yn Nhorfaen, anogodd y CydADY bob un o'r staff, gan gynnwys llywodraethwyr, i gwblhau'r deunyddiau e-ddysgu ar-lein. Mae cofnod wedi cael ei gadw o'r rhai sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant, gyda gweithgarwch dilynol priodol ar gyfer y rhai oedd heb ei gwblhau. O ganlyniad, mae gan staff a llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn, ar y cyfan, o nodau diwygio ADY a beth mae'n ei olygu i ddisgyblion, rhieni a staff.

Yn gynharach yn yr adroddiad, soniom am frwdfrydedd ac ymroddiad Cydlynwyr ADY. O ran eu datblygiad proffesiynol, roedd rhai ohonynt eisoes wedi cwblhau cymwysterau ôl-raddedig mewn AAA/ADY, gan gynnwys ennill cymwysterau arbenigol. Caiff y wybodaeth a'r medrau a enillir gan Gydlynwyr ADY eu defnyddio'n effeithiol i gynorthwyo disgyblion a staff yn eu hysgolion.

Roedd Llywodraeth Cymru yn glir y byddai Cydlynwyr ADY yn cael eu cynorthwyo â datblygu eu harweinyddiaeth ac mae'r Cod ADY yn datgan 'y dylai Cydlynwyr ADY fynd ati i ddilyn hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus' (Llywodraeth Cymru, 2021, para 8.3 tud.71). Mae'r rhaglen MA Addysg genedlaethol (Cymru) ar gael mewn saith prifysgol ledled Cymru, gyda 500 o leoedd wedi'u hariannu. Yn ogystal â dilyn rhaglen graidd, mae'n bosibl i ymgeiswyr ddilyn modiwlau arbenigol ar arweinyddiaeth a rheolaeth ADY, arfer gynhwysol yn yr ystafell ddosbarth, tegwch ac amrywiaeth ac anghenion dysgu ychwanegol, a rhagoriaeth mewn arfer. Mae cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn arwain at ddyfarnu MA Addysg (Cymru) Anghenion Dysgu Ychwanegol. At ei gilydd, mae'r graddau y mae Cydlynwyr ADY yn ymwybodol o'r rhaglen hon a'r cymorth sydd ar gael iddynt gofrestru ar y rhaglen yn rhy amrywiol.

Mae arweinwyr trawsnewid rhanbarthol, swyddogion awdurdodau lleol a Chydlynwyr ADY wedi chwarae rôl ganolog mewn sicrhau bod nodau ac amcanion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn cael eu deall gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys aelodau etholedig, uwch swyddogion, penaethiaid, a staff ysgolion.

Yn ogystal â lledaenu gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru, mae staff awdurdodau lleol ac ysgolion wedi cael cymorth i ddatblygu eu dealltwriaeth o reoli newid, datrys anghydfodau, a chefnogi disgyblion unigol trwy addysgu gwahaniaethol, er enghraifft. Mae'r sesiynau hyfforddi hyn wedi cael croeso da gan awdurdodau lleol ac ysgolion, gyda chynrychiolwyr yn gwneud sylwadau am eu defnyddioldeb.

At ei gilydd, gall ysgolion fanteisio ar raglenni hyfforddiant cynhwysfawr a chymorth gan eu hawdurdodau lleol a'u gwasanaethau cymorth sy'n cwmpasu ystod eang o themâu yn gysylltiedig ag ADY a lles. Mae'r rhain yn rhoi mewnwelediadau gwerthfawr i staff ar destunau fel awtistiaeth, anghenion cyfathrebu disgyblion, trawma, datblygiad y plentyn a hyfforddiant mewn ymyriadau sy'n cynorthwyo disgyblion ag anghenion penodol. Yn gyffredinol, roedd ysgolion yn y sampl yn gadarnhaol am y cymorth a'r hyfforddiant a gaiff staff. Siaradodd llawer o ysgolion yn hyderus am yr effaith gadarnhaol yr oedd dysgu proffesiynol yn ei chael ar staff a disgyblion, fel ei gilydd. Fodd bynnag, roedd ysgolion yn llai hyderus o ran disgrifio'r graddau y mae dysgu proffesiynol yn effeithio ar ansawdd yr addysgu ar gyfer pob un o'r disgyblion.

Gwnaeth Knight et al (2022) arolwg o 253 o athrawon yng Nghymru ar eu hamgyffrediadau o addysg gynhwysol. Canfuwyd bod athrawon, at ei gilydd, yn meddu ar ddealltwriaeth gadarnhaol o gynhwysiant. Fodd bynnag, awgrymodd hefyd fod cyfyngiadau o ran agweddau ac arferion athrawon. Roedd y rhain yn cynnwys rheoli ymddygiad disgyblion, cyfyngiadau corfforol ac ariannol a hyfforddiant a pharodrwydd.

O ran hyfforddiant a pharodrwydd, dywedodd athrawon eu bod naill ai ddim wedi cael hyfforddiant, neu wedi cael hyfforddiant annigonol:

